

Y BONT-FAEN CYNLLUN CREU LLEOEDD

Mehefin 2025



Creu Lleodedd Cymru
Placemaking Wales

Llofnodydd y Siarter Charter Signatory



Trawsnewid Trefi
Transforming Towns



Llywodraeth Cymru
Welsh Government





Uwch-gynllunio a Dylunio Trefol
Trafnidiaeth a Symudiad



Ymgysylltu ac Ymgynghori

Contents

Pennod 1	CYFLWYNIAD I BROSES Y CYNLLUN CREU LLEOEDD	6
Pennod 2	CYFRANOGIAD AC YMGYSYLLTU	10
Pennod 3	Y BONT-FAEN MEWN CYD-DESTUN	14
Pennod 4	Y BONT-FAEN HEDDIW	18
Pennod 5	GWELEDIGAETH AC AMCANION	32
Pennod 6	SUT RYDYM YN CYRRAEDD YNO?	36
Pennod 7	GWNEUD IDDO DDIGWYDD	58
Atodiad		64

Croeso Cynnes gan y Cyn-Maer

Ar ran Cyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan, rwy’n falch iawn o gyflwyno ein Cynllun Creu Lleoedd, penllanw bron i ddwy flynedd o waith mewn partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg.

Mae’r Bont-faen, a gafodd ei siarter gyntaf ym 1254, yn ymfalchïo mewn hanes cyfoethog wedi’i blethu’n ddwfn i wead ein cymuned ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun.

Mae’r Cynllun hwn, a grëwyd ar ôl ymgynghori’n helaeth â phreswylwyr, busnesau a grwpiau cymunedol, yn adlewyrchu gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol y Bont-faen. Mae’n amlinellu map ffordd ar gyfer gwella ein tref, gan groesawu’r 21ain ganrif a diogelu ein gorffennol sy’n cael ei drysori.

Ein nod yw creu cymuned ffyniannus a bywiog lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a’u cynnwys. Mae ein gweledigaeth yn cwmpasu stryd fawr ffyniannus, mannau gwyrdd gwell, seilwaith gwell, a ffocws ar gynaliadwyedd a lles.

Nid dogfen yn unig yw’r cynllun hwn; mae’n lasbrint ar gyfer gweithredu. Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni i lunio dyfodol y Bont-faen, lle y mae hanes a moderniaeth yn cydfodoli, gan greu cymuned fywiog a chroesawgar i bawb.

Heather Weddell

Y Cynghorydd Heather Weddell

Cyn-Maer Cyngor Tref y Bont-faen (Bwrdeistref Hynafol) a Llanfleiddan



Bu farw Heather ar 12 Mai 2025 ac felly gyda thristwch mawr a diolchgarwch dwfn yr ydyn ni’n cyflwyno’r Cynllun Creu Lleoedd hwn. Cafodd angerdd ein diweddar Faer dros y Bont-faen a Llanfleiddan ddylanwad enfawr ar greu’r cynllun, ac er nad yw hi gyda ni bellach, bydd ei hysbryd o gymuned a chynnydd yn rhan o’r cynllun am byth.

PENNOD 1

CYFLWYNIAD I BROSES Y CYNLLUN CREU LLEOEDD



Cyflwyniad

Diben y Cynllun Creu Lleoedd

Mae Cyngor Bro Morgannwg (CBM), mewn partneriaeth â Chyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan (Cyngor y Dref), wedi comisiynu tîm amlddisgyblaethol i baratoi'r Cynllun Creu Lleoedd hwn ar gyfer Canol Tref y Bont-faen. Mae'r tîm yn cael ei arwain gan Optimised Environments (OPEN) ac fe'i cefnogir gan SLR Consulting a ThinkingPlace. Nod cyffredinol y Cynllun Creu Lleoedd ar gyfer y Bont-faen yw arwain buddsoddiad yn y dref yn y dyfodol. Mae'r cynllun wedi'i lywio gan broses ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned gynhwysfawr yn ogystal â chyngor dylunio gan y tîm ymgynghorol. Mae Cynllun Creu Lleoedd y Bont-faen yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd presennol y dref a'i chymunedau cyfagos, ac yn creu cyfres o brosiectau sy'n ymateb i amrywiaeth o gyfleoedd. Bydd y Cynllun Creu Lleoedd yn cael ei ddefnyddio i arwain buddsoddiad yn y Bont-faen yn y dyfodol mewn modd cydlynol, a gallai gael ei ddefnyddio i ddatblygu polisi a chanllawiau cynllunio sy'n dod i'r amlwg. Darperir cynllun gweithredu clir sy'n nodi camau gweithredu blaenoriaeth ar draws amserlenni byrdymor, tymor canolig a hirdymor.

Sut mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi Datblygu:


Mae'r Cyngor Tref a thîm Cymunedau Creadigol CBM wedi cynnal rhaglen gynhwysfawr o ymgysylltu i sicrhau bod Cynllun Creu Lleoedd y Bont-faen yn cael ei lywio gan safbwyntiau ac anghenion pobl leol a'r rhai sy'n defnyddio canol y dref. Gan weithio ar y cyd â'r tîm ymgynghorol, mae'r wybodaeth hon wedi'i dadansoddi a'i hategu â dadansoddiad ar y safle a chyfarfodydd gyda Swyddogion y Cyngor a rhanddeiliaid.

O ganlyniad, mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn creu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y Bont-faen sy'n mynd i'r afael â themâu allweddol sydd wedi codi o'r broses ymgysylltu drylwyr hon.

Mae'r weledigaeth ar gyfer y Bont-faen yn gosod targed beiddgar a chyffrous ar gyfer dyfodol y Bont-faen, gyda chefnogaeth 5 amcan allweddol. Mae'r amcanion hyn yn ymateb yn uniongyrchol i faterion penodol o adborth yr ymgysylltu â'r gymuned a'r dadansoddiad gwaelodlin, ac yn cyfateb i 5 maes cyfle penodol a phrosiectau tref gyfan a fydd yn cael effeithiau clir a phenodol.

Amserlen y Cynllun Creu Lleoedd:

Mae gan Gynllun Creu Lleoedd y Bont-faen amserlen arfaethedig o 10+ mlynedd hyd at a thu hwnt i 2034. O fewn yr amserlen hon, y gobaith yw y gall y Cynllun Creu Lleoedd gefnogi a hwyluso'r gwaith o gyflwyno prosiectau 'enillion cyflym' y gellir eu cyflawni yng nghyd-destun y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, ond hefyd datblygu a chefnogi'r prosiectau mwy cymhleth, tymor hwy hynny a fydd yn gofyn am astudiaeth ac asesu pellach. Bydd CBM a Chyngor y Dref yn parhau i adolygu'r Cynllun Creu Lleoedd yn ystod ei oes, gan ymateb ac addasu i amgylchiadau sy'n newid ond hefyd dal cyfleoedd newydd wrth iddynt godi.



Cyflwyniad

Siarter Creu Lleoedd Cymru

Ym mis Medi 2020, lansiwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru.

Ym mis Mehefin 2023, daeth CBM yn llofnodwr Siarter Creu Lleoedd Cymru a chytunwyd y byddai CBM yn gwneud cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i baratoi Cynlluniau Creu Lleoedd ar gyfer pob un o drefi'r Fro. Mabwysiadodd y Cyngor Tref y Siarter ym mis Hydref 2023.

Mae'r Siarter yn datblygu ffocws Creu Lleoedd mewn polisïau ac arferion yng Nghymru a'i nod yw rhoi dealltwriaeth gyffredin o'r amrywiaeth o ystyriaethau a wneir wrth greu lleoedd. Mae'r Siarter yn amlinellu chwe egwyddor creu lleoedd sy'n cwmpasu'r ystod o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da.

Wrth lofnodi'r Siarter, mae CBM yn cytuno i gefnogi'r gwaith o greu lleoedd wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd sy'n bodoli eisoes a lleoedd newydd. I gefnogi hyn, mae 6 egwyddor allweddol y Canllaw Creu Lleoedd yn creu'r sylfaen ar gyfer Cynllun Creu Lleoedd y Bont-faen i yrru'r prosiectau posibl a awgrymir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon ymlaen. Mae'r egwyddorion allweddol a nodir yn y Siarter yn cael eu nodi isod:

- **Pobl a chymuned** - mae'r gymuned leol yn cael ei chynnwys wrth datblygu cynigion. Mae anghenion, dyheadau, iechyd a lles pawb yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf. Mae cynigion yn cael eu llunio i helpu i fodloni'r anghenion hyn yn ogystal â chreu, integreiddio, amddiffyn a/neu wella ymdeimlad o gymuned a hyrwyddo cydraddoldeb.
- **Cymysgedd o ddefnyddiau** - mae gan leoedd amrywiaeth o ddibenion sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu cymunedol, twf busnesau lleol a mynediad at swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau trwy gerdded, beicio neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae gwaith datblygu a chymysgedd o ddefnyddiau a deiliadaethau yn helpu i gynnal cymuned amrywiol a thir cyhoeddus bywiog.
- **Lleoliad** - mae lleoedd yn tyfu ac yn datblygu mewn ffordd sy'n defnyddio tir yn effeithlon, yn cefnogi ac yn cyfoethogi lleoedd sy'n bodoli eisoes ac wedi'i chysylltu'n dda. Y bwriad yw y bydd lleoliad tai, cyflogaeth, hamdden a chyfleusterau eraill yn helpu i leihau'r angen i deithio.
- **Tir cyhoeddus** - mae strydoedd a mannau cyhoeddus wedi'u diffinio'n dda, yn groesawgar, yn ddiogel ac yn gynhwysol gyda hunaniaeth benodol. Maent wedi'u dylunio i fod yn gadarn ac yn addasadwy gydag ardaloedd wedi'u tirlunio, seilwaith gwyrdd a systemau draenio cynaliadwy wedi'u hintegreiddio'n dda. Maent wedi'u cysylltu'n dda â lleoedd sy'n bodoli eisoes ac yn hyrwyddo cyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol ac amrywiaeth o weithgareddau i bawb.
- **Symudiad** - mae cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn flaenoriaeth i gynnig dewis o ddulliau teithio ac osgoi dibyniaeth ar gerbydau preifat. Mae llwybrau teithio llesol sydd wedi'u dylunio'n dda ac sy'n ddiogel yn cysylltu â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach ac mae gorsafoedd a safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u hintegreiddio'n gadarnhaol.
- **Hunaniaeth** - Caiff nodweddion positif ac unigryw lleoedd presennol ei gwerthfawrogi a'u parchu. Caiff y nodweddion a'r cyfleoedd unigryw sydd ynghlwm wrth leoliad gan gynnwys treftadaeth, diwylliant, iaith a nodweddion ffisegol adeiledig a naturiol eu pennu ac ymatebir iddynt.

Ardal yr Astudiaeth

Mae'r Cynllun Creu Lleodd yn canolbwyntio ar ardal canol y dref, sy'n cynnwys Westgate, y Stryd Fawr ac Eastgate. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd i'r gogledd o amgylch Bear Field a North Road, Neuadd y Dref yn ogystal ag ardaloedd i'r de yn Police Field, Yr Hen Farchnad Da Byw a'r Hen Neuadd.

Yn ehangach, mae hefyd yn ystyried y berthynas rhwng canol y dref a'r dref ehangach, yn ogystal â'r pentrefi cyfagos. Ei fwriad yw integreiddio datblygiadau newydd fel Clare Garden Village â chanol y dref yn well, ond mae hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y Bont-faen fel lleoliad gwasanaethau ar gyfer y pentrefi cefnwlod cyfagos, yn enwedig y rhai i'r gorllewin a'r gogledd o'r dref ac yn nodi, lle bo modd, brosiectau sy'n cefnogi ac yn manteisio ar y dylanwadau ehangach hyn yn well.



Ardal yr Astudiaeth

PENNOD 2

CYFRANOGIAD AC YMGYSYLLTU



Cyfranogiad ac Ymgysylltu

Crynodeb o Ymgysylltu ac Ymgynghori

Crynodeb o Ymgysylltu ac Ymgynghori

Mae tîm Cymunedau Creadigol CBM, ynghyd â Chyngor y Dref wedi gwneud gwaith mapio cymunedol sylweddol dros sawl mis i ddeall safbwyntiau a dyheadau rhanddeiliaid lleol ac aelodau o'r gymuned ar gyfer y Bont-faen. Roedd yr ymarfer mapio cymunedol yn cynnwys digwyddiadau dros dro, grwpiau ffocws, ymweliadau ag ysgolion, sgysiau gyda busnesau ac arolwg ar-lein drwy Creu Lleoedd | Cymryd rhan y Fro (www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/Index.aspx).


Dilynwyd hyn gan ymgysylltu wedi'i dargedu'n fwy gan yr ymgynghorwyr i sicrhau bod yr adborth a gasglwyd yn gwneud synnwyr ac i ymchwilio'n ddyfnach iddo trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda Chyngor y Dref, cyfarfodydd ar-lein gyda rhanddeiliaid allweddol a Swyddogion perthnasol Bro Morgannwg. Ymgysylltodd y Cyngor ymhellach gyda busnesau a disgyblion ysgol.

Nod y broses ymgynghori oedd annog pobl i rannu eu profiadau o'r Bont-faen, i sefydlu darlun o sut mae'r dref yn gweithredu o ddydd i ddydd a sut mae'r gymuned leol a'r gymunedau gyfagos yn rhyngweithio â'r lle.

Mae'r adborth ymgysylltu wedi rhoi cipolwg rhagorol i'r tîm o anghenion, dymuniadau a dyheadau'r gymuned leol a bydd yn cael ei ddefnyddio fel y dystiolaeth y mae cynigion ac ardaloedd cyfle y Cynllun Creu Lleoedd wedi'u seilio arni yn y penodau canlynol. Mae'r meysydd ar gyfer ymyrraeth a phrosiectau a nodir yn ddiweddarach yn y cynllun hwn yn cael eu llywio gan sylwadau a wnaed a syniadau a awgrymwyd gan aelodau o'r gymuned a rhanddeiliaid.

Mae'r digwyddiadau ymgysylltu wedi cynnwys:

- Digwyddiadau dros dro cymunedol
- Sesiynau un i un gyda busnesau lleol
- Ymweliadau ag ysgolion
- Sesiynau teams ar-lein gydag aelodau o Gyngor y Dref
- Taith gerdded o gwmpas y dref gydag aelodau o Gyngor y Dref
- Taith gerdded o gwmpas y dref gyda thimau Bro Morgannwg
- Sesiwn ar-lein gyda Charter Trust
- Sesiynau ar-lein gyda thimau Cyngor Bro Morgannwg
- Dosbarthu holiaduron i fusnesau lleol
- Adborth gwefan



Cyfranogiad ac Ymgysylltu

Blaenoriaethau Lleol sy'n Dod i'r Amlwgs



Cryfderau

- Yn ffodus i fod â chymaint o siopau annibynnol ar hyd y Stryd Fawr
- Digon o siopau ar hyd y Stryd Fawr
- Balchder yn yr amgylchedd hanesyddol a gwerthfawrogiad o'r ardd ffiseg a gerddi'r Hen Neuadd
- Llwybrau cerdded gwych o amgylch y Bont-faen
- Llawer o wyliau i ddod â'r gymuned at ei gilydd
- Mae ysbryd cymunedol yn y dref yn gryf
- Llawer o gyfleoedd chwaraeon yn y ganolfan Hamdden a'r mannau cyfagos fel y clwb Rygbi a'r caeau chwarae
- Cynnig da o gyfleusterau lleol fel fferyllfeydd, canolfan hamdden
- Mae trigolion y Bont-faen yn ymfalchïo yn estheteg y dref, felly mae balchder cryf o ran lle
- Mae trigolion lleol yn teimlo bod yr ardal yn dawel ac yn ddiogel gydag amwynderau lleol dim ond taith gerdded fer i ffwrdd
- Mae lleoliad y dref yn cael ei werthfawrogi gan drigolion, mae'n agos at bentrefi cyfagos a'r arfordir ac nid yw'n rhy bell o Gaerdydd
- Gwerthfawrogiad o leoliad gwledig y dref, gyda phwyslais ar werth mannau gwyrdd ar gyfer lles a hamdden



Gwendidau

- Hygyrchedd gwael gyda strydoedd bach, palmentydd cul a slabiau sigledig.
- Gormod o geir wedi'u parcio ar strydoedd ochr ac ar y Stryd Fawr
- Mae'r siopau a'r parcio ar hyd y Stryd Fawr i gyd yn cael eu hystyried yn rhy ddrud.
- Sbwriel ar y strydoedd ac mewn parciau lleol a dim digon o finiau
- Nid yw'r dref yn teimlo'n dda i feiciau, heb unrhyw lonydd na llwybrau beicio
- Dim digon o leodd i deuluoedd
- Nid oes fawr ddim lle i blant 10 oed a hŷn i chwarae. Mae'r mannau chwarae presennol yn darparu ar gyfer plant iau
- Cysylltedd digidol gwael, mae angen cysylltiadau gwell â gwasanaethau 4G a 5G ar y dref
- Mae cyfleusterau cyhoeddus yn gyfyngedig - dim digon o doiledau cyhoeddus er enghraifft
- Dim pwll nofio yn y ganolfan hamdden leol
- Dim lle i gymnasteg na dawnsio tu allan
- Nid yw rhai llwybrau'n teimlo'n ddiogel i blant gerdded ar eu pennau eu hunain
- Gallai hanes y dref gael ei hysbysebu'n well
- Mae angen mwy o gystadleuaeth ar y dref o ran archfarchnadoedd
- Dim sinema yng nghanol y dref




Cyfleoedd

- Dathlu natur annibynnol y dref o ran ysbryd a busnesau/sefydliad
- Hyrwyddo a thyfu'r ymdeimlad cryf o gymuned fel y gwelir gan y gwahanol grwpiau
- Defnyddio'r lleoliad i hyrwyddo iechyd a lles i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd
- Canolbwyntio ar fod yn gyrchfan ar gyfer ardal ehangach drwy hyrwyddo'r dref a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu
- Cyflwyno pecyn o gyfleoedd i ymwelwyr a thrigolion i greu cynnig byw ac ymweld cryfach
- Cyflwyno lleoedd o safon yn y dref i bobl gwrdd a threulio amser gyda'i gilydd gan gynyddu nifer yr ymwelwyr
- Creu gofod digwyddiadau aml-ddefnydd yn y canol a rhaglen digwyddiadau gwell i annog ymwelwyr i ddod
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau a phreswylwyr newydd yn rhan o wead y dref ac yn gwerthfawrogi ac yn cynnal ei hymdeimlad o le
- Peidio â cholli'r ymdeimlad arbennig hwnnw o le a hunaniaeth, lleoliad o safon ychydig yn uwch ac nid oes ofn bod yn wahanol
- Datblygu lleoedd sy'n galluogi pobl, yn enwedig pobl ifanc, i ymgynnull. Mae'r awgrymiadau'n cynnwys Parkrun i blant, clybiau ieuenctid a mannau cyhoeddus rhad ac am ddim
- Meithrin mwy o brosiectau celf a chreadigol, gan gynnwys canolfan gymunedol gelfyddydol debyg i Ganolfan Gelfyddydau'r Chapter yng Nghaerdydd o bosibl
- Gwella cynigion bwyd a diod i greu mwy o gyfleoedd cymdeithasol tebyg i drefi cyfagos fel Penarth
- Awydd am llwybrau cerdded a beicio gwell sy'n cysylltu â chymunedau cyfagos

Mae'r adborth o'r ymgysylltu wedi'i ddadansoddi ac mae'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol wedi'u nodi, a wnaeth alluogi themâu penodol i ddod i'r amlwg. Cafodd y themâu eu llywio gan nifer yr achosion o eiriau a disgrifiadau, gan sicrhau y byddai adborth yn cael ei gasglu o fewn thema ehangach.

Bydd y prif themâu sydd wedi dod i'r amlwg o'r pethau a hoffir, y pethau nas hoffir, a'r gobeithion ar gyfer y Bont-faen, yn cael eu defnyddio i lywio newid ac ymyriadau ar gyfer y Bont-faen yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwelliannau i'r Tir Cyhoeddus
- Cyfleusterau Lleol Gwell
- Diogelwch
- Cynaliadwyedd
- Gwelliannau Seilwaith
- Balchder Cymunedol Lleol
- Treftadaeth a Chymeriad
- Cefnogi Twf Economaidd Lleol



HAVE YOUR SAY!

MONDAY 26th FEBRUARY
THE HORSE & CROOK
COWBRIDGE
17.30 TO 20.00

MONDAY 4th MARCH
THE BUREL
COWBRIDGE
17.30 TO 20.00

MONDAY 11th MARCH
FARMERS BARRIS
ABERTHUN
17.30 TO 20.00

INFLUENCE THE FUTURE OF YOUR TOWN

COME ALONG TO ONE OF THESE COMMUNITY DROP-IN EVENTS AND MAKE YOUR CONTRIBUTION TO THE PLACEMAKING PLAN CURRENTLY BEING DEVELOPED THROUGH A PARTNERSHIP BETWEEN THE VALE OF GLAMORGAN COUNCIL AND THE COWBRIDGE WITH LLANBLETHIAN TOWN COUNCIL.

✉ CREATE@VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK

MORE DETAILS ABOUT THE PLACEMAKING PLAN, ALONG WITH A SHORT SURVEY CAN BE FOUND BY SCANNING THE QR CODE.

[WWW.PARTICIPATE.VALEOFGLAMORGAN.GOV.UK/PLACEMAKING-COWBRIDGE](http://www.participate.valeofglamorgan.gov.uk/placemaking-cowbridge)

Creu Lleoedd yn y Bont-faen – Dweud Eich Dweud

Mae'r Cyngor Tref a Chyngor Bro Morgannwg yn awyddus i glywed eich barn i lunio dyfodol y dref am y degawd nesaf. Dilynwch y dolenni neu'r codau QR isod i gael gwybod mwy a chwblhau arolwg.

Yr arolwg i gau ar 25 Mawrth!

Placemaking Cowbridge – Have Your Say

The Town Council and the Vale of Glamorgan want your views, to shape the future of the Town for the next decade. Follow the links or QR codes below to find out more and complete a survey.

Survey to close on 25th March!

Cymru

<http://tiny.cc/creulleoeddybont-faen>
<http://tiny.cc/placemakingcowbridge>

English

PENNOD 3

Y BONT-FAEN MEWN CYD-DESTUN



Y Bont-faen mewn Cyd-destun

Cyd-destun Polisi Cynllunio

Mae nifer o gynlluniau, strategaethau a pholisïau presennol sydd wedi llywio'r broses gynhyrchu a'r canlyniadau ar gyfer y cynllun creu lleoedd. Mae'r rhain yn amrywio o bolisi cenedlaethol i bolisi lleol ac maent wedi'u crynhoi isod ond mae mwy o fanylion yn Atodiad B.

Creu Lleoedd yng Nghymru

Mae'r polisïau a restrir isod yn nodi egwyddorion, enghreifftiau a chanlyniadau creu lleoedd allweddol a ddefnyddiwyd i strwythuro'r cynllun creu lleoedd ei hun, cyflwyno pwyntiau siarad yn ystod ymgynghori ac arwain y gwaith o flaenoriaethu ymyriadau gwahanol.

- **Polisi Cynllunio Cymru (PCC) - Rhifyn 12, 2024**
- **Canllaw Creu Lleoedd, 2020**

Ffynonellau Eraill o Arweiniad

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hefyd yn defnyddio amrywiaeth o astudiaethau a datganiadau strategol eraill gan gynnwys:

- **Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, Archwilio Cymru (2021)**
- **Gweledigaeth ar gyfer trefi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach (2022)**
- **Small towns, big issues: Aligning business models, organisation and imagination, Llywodraeth Cymru / Foundational Economic Research (2021)**

Cynaliadwyedd

Ochr yn ochr â Chreu Lleoedd, mae adfywio cynaliadwy a chreu datblygu cynaliadwy yn sbardun allweddol ar gyfer newid yn y Bont-faen. Mae'r polisïau canlynol yn berthnasol i Gynllun Creu Lleoedd y Bont-faen:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Prosiect Sero - Cynllun Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-30**

Polisi Cenedlaethol Cymru

Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040, 2021

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021, yn cynllunio ar gyfer y newid a'r datblygiad y bydd eu hangen ar Gymru dros y ddau ddegawd nesaf ac yn dylanwadu ar feysydd sylweddol o weithgarwch y Cyngor. Mae'n nodi 11 uchelgais troswaol yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Mae'r polisïau canlynol yn berthnasol i'r Bont-faen

- **Polisi 2 – Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol**
- **Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol – Arweinyddiaeth Sector Cyhoeddus**
- **Polisi 6 – Canol Trefi yn Gyntaf**
- **Polisi 9 - Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd • Polisi 10 - Cysylltedd Rhyngwladol**
- **Polisi 11 - Cysylltedd Cenedlaethol**
- **Polisi 12 - Cysylltedd Rhanbarthol**
- **Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain**

Polisi Rhanbarthol

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bro Morgannwg yn un o'r deg awdurdod sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dyma'r ddinas-ranbarth fwyaf yng Nghymru ac mae'n cyfrif am tua 50% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru, 49% o gyflogaeth ac mae ganddi dros 38,000 o fusnesau gweithredol.


Polisi Lleol

- **Bro 2030 Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair**
- **Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026 (ar hyn o bryd mae CBM yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid)**

O fewn y cynllun datblygu lleol, mae polisïau ychwanegol sy'n berthnasol i Gynllun Creu Lleoedd y Bont-faen sy'n cynnwys:

Policy SP7 - Transportation

- **Polisi SP7 - Trafnidiaeth**
- **Polisi SP11 - Twristiaeth a Hamdden**
- **Polisi MG2 - Dyraniadau Tai**
- **Ardal Gadwraeth y Bont-faen gyda Llanfleiddan: Cynllun Gwerthuso a Rheoli, 2010**



Y 7 nod lles a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cydnabyddiaeth: Llywodraeth Cymru

Y Bont-faen mewn Cyd-destun

Y Cyd-destun Rhanbarthol

Lleoliad a Chysylltiadau


Lleoliad a Chysylltiadau Tref hynafol yw'r Bont-faen sydd wedi'i lleoli yng nghanol Bro Morgannwg yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru, sef y rhanbarth mwyaf poblog yng Nghymru gyda dros 1.5 miliwn o drigolion.

Mae'r dref wedi'i lleoli ar yr A48 ac mae 17 milltir o brifddinas Caerdydd. Mae Bro Morgannwg o fewn 'Prifddinas-Ranbarth Caerdydd', ardal sy'n gyrru twf economaidd mawr yng Nghymru ac a nodwyd fel ardal allweddol lle mae pobl eisiau byw a gweithio.


O'r Bont-faen, mae mynediad hawdd i'r M4, mae Llundain 2 awr i ffwrdd o Gaerdydd ar y trên, a dim ond 20 munud mewn car y mae Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd; mae'n ddiaffordd ond wedi'i chysylltu.

Mae'r dref tua 7 milltir o Arfordir Treftadaeth Morgannwg, sy'n cynnwys 14 milltir o arfordir naturiol gyda thraethau, clogwyni dramatig, gerddi a chestyll.

Yn fwy lleol, mae'r Bont-faen yn lleoliad lleol pwysig i bentrefi cyfagos fel Llanfleiddan, Aberthin, Llyswyrni a Phen-llin gan gynnig gwasanaethau allweddol fel iechyd, addysg a manwerthu.



Cyd-destun Strategol



Cyd-destun Rhanbarthol

Y Bont-faen mewn Cyd-destun

Y Cyd-destun Hanesyddol

Y Bont-faen yw un o'r trefi hynaf yng Nghymru, wedi'i hadeiladu ar hyd hen ffordd Rufeinig. Mae cofnodion o 1254 yn dangos sut y rhoddwyd cynlluniau ar gyfer 80-90 o leiniau bwrtais ar waith o fewn muriau'r dref gan Richard de Clare, ar 96 erw o dir wedi'i neilltuo o'i faenor yn Llanfleiddan. Mae hyn wedi siapio cynllun a chymeriad y dref i raddau helaeth fel y mae heddiw.

Trwy'r cyfnodau canoloesol a modern cynnar, tyfodd y Bont-faen fel marchnad a chanolfan weinyddol gydag ardal ganolog y dref yn furiog yn y 13eg ganrif. Roedd yr hen ardal farchnad da byw ar gyffordd y Stryd Fawr a'r Butts yn ganolbwynt bywyd, ac roedd yr adeiladau nodedig, sy'n parhau heddiw, yn cynnwys The Duke of Wellington, The Bear Inn, The Mason Arms, The Ancient Druid, 71-73 Eastgate a 38 y Stryd Fawr.

Trwy gydol y 18fed ganrif, wrth i ddiwydiannau lleol ddatblygu, adeiladwyd tai tref mawreddog ar hyd y stryd fawr ynghyd â busnesau bach, siopau a sefydliadau eraill. Tyfodd pwysigrwydd y dref fel tref y goetsh fawr gyda thafarndai a gwestai yn ffynnu ar wasanaethu'r fasnach hon. Fodd bynnag, dymchwelwyd Hen Neuadd y Dref a rhannau o Byrth y Dwyrain a'r Gorllewin i ddarparu'n well ar gyfer y cynnydd hwn yn y traffig o goetshis mawr.

Mae'r mapiau hanesyddol gyferbyn yn dangos datblygiad o fewn y dref o'r 19eg ganrif hyd heddiw. Mae'r stryd fawr llinellol o'r dwyrain i'r gorllewin yn parhau i fod yn nodwedd amlwg o'r dref. Mae ystadau tai newydd i'w gweld i'r de o'r dref ar fap 1948-1973, a ddatblygwyd yn ôl pob tebyg i ddarparu ar gyfer cymudwyr i Gaerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, yn dilyn agor ffordd osgoi'r A48 yn y 1960au.

I'r de o'r Bont-faen, mae adfeilion Castell St Quentin/ Llanfleiddan, a adeiladwyd yn ôl pob tebyg ar ddechrau'r 14eg ganrif. Mae adfeilion y castell yn dirnod lleol ac yn ased treftadaeth allweddol yn y dref.

Mae'r Bont-faen yn llawn hanes ac mae ei ymdeimlad o le hyd heddiw yn adlewyrchu ei orffennol hanesyddol.

**Atgynhyrchwyd
gyda chaniatâd
Llyfrgell
Genedlaethol yr
Alban**

1888-1915



1945-1965



1948-1973



PENNOD 4

Y BONT-FAEN HEDDIW



Y Bont-faen Heddiw

Mae'r Bont-faen yn dref hanesyddol yng nghefn gwlad godidog Bro Morgannwg. Mae'n dref gyda chyfuniad i eiddigeddu wrtho o dreftadaeth llawn cymeriad, stryd fawr nodweddiadol, parciau hanesyddol hardd a mynediad i'r awyr agored. Mae gan y Bont-faen holl rinweddau pentref Cymreig hanesyddol, braf.

Heddiw, mae'r Bont-faen yn gweithredu fel canolfan wasanaeth ar gyfer pentrefi cyfagos fel Llanfleiddan, Aberthin, a thu hwnt, gyda stryd fawr sy'n gyrchfan. Mae hefyd yn gyrchfan i ymwelwyr, gan ymfalchïo mewn teithiau cerdded hardd, adeiladau treftadaeth llawn cymeriad yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau poblogaidd trwy gydol y flwyddyn, sy'n denu ymwelwyr o'r dref, a ledled y Fro.

Mae'r cyfuniad cyfoethog hwn o brofiadau a gweithgareddau yn golygu bod y Bont-faen yn dref sy'n tyfu, gyda thrigolion newydd yn symud i mewn i Clare Garden Village a ddarparwyd yn ddiweddar (gyda cham 3 eto i ddod) yn ogystal â datblygiadau arfaethedig eraill yn y cyffiniau.

Mae'r dadansoddiad gwaelodlin canlynol yn darparu crynodeb o ymgysylltu ag aelodau'r Cyngor Tref, astudiaethau bwrdd gwaith ac ymweliad safle ymdrochol. Mae'r dadansoddiad yn cwmpasu'r themâu isod, sy'n cefnogi'r wybodaeth a gasglwyd trwy ymgysylltu â'r gymuned:

- Pobl a Chymuned
- Mynediad a Symud
- Asedau Gwyrdd
- Cymeriad a Threftadaeth
- Defnydd Tir a Gweithgaredd
- Y Stryd Fawr
- Prosiect ar y Gweill



Busnesau lleol ar y Stryd Fawr



Neuadd y Dref y Bont-faen



Gardd Berlysiau'r Bont-faenn



Hen Neuadd a Gerddi'r Bont-faen

Y Bont-faen Heddiw

Pobl a Chymuned

Mae'r Bont-faen yn dref fechan gyda phoblogaeth o oddeutu 6,573 o bobl. Mae'r cynllun gyferbyn yn dangos y cyfleusterau cymunedol allweddol yng nghanol y dref.

Mae pwyntiau o ddiddordeb allweddol yn cynnwys:

- Prif ardal siopa ar hyd y Stryd Fawr sy'n gartref i amrywiaeth o siopau a gwasanaethau, sy'n cynnig cyfuniad o fanwerthwyr annibynnol lleol yn ogystal ag archfarchnad Waitrose i'r de o'r Stryd Fawr.
- Cyfleusterau Dinesig a Chymunedol: Neuadd y Dref, y Llyfrgell a Hen Neuadd y Bont-faen, sydd yng nghanol y dref, sy'n cynnig amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol. Mae cyfleusterau cymunedol lleol fel Cymdeithas Ddrama Amatur y Bont-faen (CADS) a Neuadd Sgowtiaid y Bont-faen hefyd ychydig i'r de o'r Stryd Fawr.
- Cyfleusterau hamdden ac iechyd: Clybiau Sboncen a Chriced y Bont-faen, Clwb Athletau a Chanolfan Hamdden, i'r gogledd-orllewin o'r Stryd Fawr. Mae Practis Meddygol y Bont-faen a'r Fro hefyd ger y Ganolfan Hamdden.
- Mannau Gwyrdd: Mae Cae'r Arth i'r gogledd o'r Stryd Fawr, gyda Chae'r Heddlu a man agored mawr o gwmpas Castell St Quentin i'r de o'r Stryd Fawr.

Mae gwybodaeth ystadegol allweddol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y Bont-faen yn gwro oddi wrth y cyfartaledd ar nifer o gategoriâu, wedi'u crynhoi isod:

- **Twf uwch yn y boblogaeth:** Mae data'r cyfrifiad o 2011 a 2021 yn dangos bod y boblogaeth breswyl wedi cynyddu 6%, a oedd yn uwch na chyfran y twf yn ardal Bro Morgannwg (4.4%) a Chymru (1.4%)
- **Cyfran is o bobl iau:** Cyfran is o drigolion rhwng 16 a 34 oed yn byw yn y Bont-faen (12.9%) o'i chymharu â Bro Morgannwg (20.1%)
- **Cyfran uwch o bobl hŷn:** Cyfran uwch o drigolion rhwng 65 a 74 oed yn byw yn y Bont-faen (16.4%) o'i chymharu â Bro Morgannwg (11.8%)

- **Cyfran uwch o drigolion â chymwysterau Lefel 4 ac uwch:** 52%, o'i chymharu ag ardal ehangach Bro Morgannwg (37.3%) a Chymru (31.5%).
- **Cyfran uwch o drigolion sy'n berchen ar eu cartref eu hunain:** Mae'r data'n dangos bod gan y Bont-faen gyfran sylweddol uwch o drigolion sy'n berchen ar y tŷ y maent yn ei feddiannu o'i chymharu â Bro Morgannwg a Chymru gyfan, 82.2%, 71.9% a 66.1% yn y drefn honno.
- **Cyfran uwch o aelwydydd sydd â dau gar neu fwy:** Yn ogystal â hyn, mae gan gyfran sylweddol uwch o aelwydydd yn y Bont-faen dri neu fwy o geir neu faniau, o'i chymharu â Bro Morgannwg a Chymru gyfan, sef 15.0%, 10.3% a 10.7% yn y drefn honno. Efallai y bydd y niferoedd uwch hyn yn nodi dibyniaeth ar deithio mewn car, a fydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r ymyriadau a'r camau gweithredu a ddangosir yn ddiweddarach yn y Cynllun Creu Lleoedd hwn.
- **Cyfran uwch yn gweithio gartref:** Mae'r data'n dangos bod cyfran uwch o drigolion sy'n byw yn y Bont-faen yn gweithio gartref yn bennaf o'i chymharu â Bro Morgannwg a Chymru gyfan, 45.8%, 34.0% a 25.6% yn y drefn honno.
- **Fforddiadwyedd:** Mae ystadegau yn tynnu sylw at y ffaith bod y Bont-faen yn ardal lewyrchus, gyda lefelau uchel o gymwysterau, perchentyaeth ac o bobl yn berchen ar geir, ac er ei bod yn lle dymunol i fyw ynddo, mae'r ardal yn ddrutach. Gall hyn gael effaith ar ddenu pobl iau a theuluoedd iau i'r ardal.
- **Yr economi leol:** Mae'r Bont-faen yn cael ei chydabod am ei chynnig manwerthu, mae 57% o'r unedau yng nghanol y dref yn Siopau A1, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd Trefi Bach Cenedlaethol o 53%. Mae ganddi hefyd economi ymwelwyr eithaf mawr gyda 44% o siopwyr, wedi'u cyfrif yn astudiaeth Towns Alive 2014, yn dod i mewn i'r dref o bellter o oddeutu 30 munud.

Demograffeg Gymunedol

 Poblogaeth o
6,573

 Mae **33%** o'r
gymuned dros 65
oed

 Mae gan **52%**
gymwysterau Lefel
4 neu uwch

 Mae **82%** yn
berchen ar eu
cartref



Ffynhonnell: Amcangyfrifon Poblogaeth Canol 2020, Data Cyfrifiad 2011 a 2021 Swyddfa Ystadegau Gwladol



Y Bont-faen Heddiw

Mynediad a Symud

Mae gan y Bont-faen gysylltiadau ffyrdd ardderchog â Chaerdydd, Maes Awyr Caerdydd (10 milltir/20 munud mewn car), a threfi mwy cyfagos Pen-y-bont ar Ogwr (6.4 milltir/14 munud mewn car) a'r Barri (11 milltir/25 munud mewn car). Mae'r Bont-faen hefyd yn ganolfan wasanaeth i'w phentrefi cefnwlad, ac o ystyried y lleoliad gwledig cyfagos yn ogystal â'r ddemograffig hŷn nodedig a thrafnidiaeth gyhoeddus anaml, ceir mynediad i'r dref yn bennaf mewn car. Isod mae crynodeb o'r arsylwadau allweddol ynghylch mynediad a symudiad yn y dref, a gymerwyd o'r dadansoddiad bwrdd gwaith a'r ymweliad safle:

Strydoedd a Pharcio

- Mae'r mwyafrif o ymwelwyr a thrigolion yn cyrraedd canol y dref mewn car sydd wedi arwain at 90% o leodd parcio oddi ar y stryd yng nghanol y dref (Astudiaeth Towns Alive 2014)
- Mae llawer o dagfeydd traffig ger cyffordd Neuadd y Dref / Waitrose
- Prin yw'r croesfannau diogel i gerddwyr ar hyd Westgate, Eastgate a'r Stryd Fawr, gydag un groesfan sebra nodedig ac un groesfan â signalau ar y Stryd Fawr
- Mae trefniant ffordd cymhleth y tu ôl i Neuadd y Dref a'r orsaf fysus sy'n peri risg i gerddwyr
- Prin yw'r pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar hyn o bryd, ond deallir bod cynigion ar gyfer pwyntiau newydd ar waith

Cerdded a Beicio

- Mae llawer o lwybrau anffurfiol o lwybrau byr, megis y rhai trwy Gae'r Heddlu sy'n ymddangos eu bod yn cael eu troedio'n dda gan drigolion lleol, i'r rheini sy'n rhan o rwydwaith cerdded ehangach sy'n cysylltu ardaloedd preswyl cyfagos â chanol y Bont-faen
- Ar hyn o bryd nid oes lôn feicio bwrpasol yng nghanol y dref
- Prin yw'r manau parcio beiciau ac mae'r rheini sydd ar gael mewn cyflwr truenus, er enghraifft ger cyffordd The Butts / Stryd Fawr
- Mae gan rai ardaloedd droedffyrdd cul sy'n cyfyngu ar hygyrchedd
- Mae arwyddion stryd a dodrefn yn cyfyngu ar symudiad ar hyd troedffyrdd mewn rhai ardaloedd
- Mae Llwybr 9 y Fro yn mynd trwy'r Bont-faen o'r gogledd i'r de, gan arwain i fyny at Gastell St Quentin.

Trafnidiaeth Gyhoeddus

- Gwasanaethir y Bont-faen gan 2 lwybr bws. Mae'r llwybr X2 yn rhedeg rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd Canolog bob 30 munud. Mae'r bws yn cymryd tua 30 munud i gyrraedd Pen-y-bont ar Ogwr, ac awr i gyrraedd Caerdydd. Mae'r llwybr 321 yn rhedeg yn llai aml rhwng Llanilltud Fawr a Thonysguboriau drwy'r Bont-faen ac mae'n cymryd 20 munud i gyrraedd Llanilltud Fawr, a 30 munud i gyrraedd Tonysguboriau
- Mae arosfannau bysus presennol ar hyd y Stryd Fawr a'r tu ôl i Neuadd y Dref.



Mynediad gwael i gerddwyr ar hyd y Broad Shoard



Llwybrau bysus yn arwain at gefn Neuadd y Dref



Lle parcio agored ar hyd The Butts




Croesfan sebra bresennol ger cyffordd Stryd yr Eglwys / y Stryd Fawr



Llwybrau i gerddwyr o Gae'r Heddlu i Llantwit Major Road



Cyffordd Waitrose / y Stryd Fawr



- Allwedd
- A48 Ffordd Osgoi y Bont-faen
 - Prif lwybr drwy'r Bont-faen
 - Craidd Trefol
 - Llwybr Eilaidd
 - Parcio
 - Hawliau tramwy cyhoeddus
 - Llwybr y Fro rhif 9
 - Llwybrau cerdded anffurfiol
 - Llwybrau cerdded arfaethedig
 - Llwybrau cerdded a beicio arfaethedig
 - Llwybrau beicio arfaethedig
 - Safleoedd bws
 - Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan
 - Pwyntiau cyffordd presennol ar brif lwybr
 - Cyffordd bresennol â signalau ar brif lwybr
 - Cyffordd bresennol ar brif lwybr gyda chroesfan sebra

Cynllun Dadansoddi Mynediad a Symudiad Presennol

Y Bont-faen Heddiw

Asedau Gwyrdd

Mae gan y Bont-faen amrywiaeth o barciau chwarae, gerddi hanesyddol a mannau agored gwyrdd. Mae nifer o fannau gwyrdd yn agos at ganol y dref, fel Cae'r Arth a Chae'r Heddlu, sy'n cael eu rheoli gan Gyngor Bro Morgannwg, a Pharc Twt, sy'n cael ei reoli gan Gyngor y Dref ac sy'n cynnig gofod hamdden a chwarae i drigolion ac ymwelwyr.

Mae Gerddi'r Hen Neuadd, sydd ychydig oddi ar y Stryd Fawr, yn cael eu cynnal a'u cadw yn dda gan grŵp o wirfoddolwyr ymroddedig o Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen. Yn agos i hyn mae prif atyniad y Bont-faen, yr Ardd Berlysiau, sy'n atyniad i dwristiaid sy'n cael ei reoli gan grŵp gwirfoddol gweithgar sy'n sicrhau bod ei stori yn parhau i gael ei hadrodd.

Isod mae crynodeb o'r arsylwadau allweddol ynghylch asedau gwyrdd, a gymerwyd o'r dadansoddiad bwrdd gwaith a'r ymweliad safle:

Mannau Gwyrdd

- Mae yna lawer o fannau agored o ansawdd da ond mae gan rai mannau swyddogaeth gyfyngedig (e.e. mae Cae'r Heddlu yn darparu meysydd chwarae i'r dref, ond mae'r ansawdd yn wael)
- Mae'r mannau gwyrdd presennol yn teimlo braidd yn ddatgysylltiedig oddi wrth ardaloedd preswyl presennol, a gellid eu cysylltu'n well trwy arwyddion a llwybrau troed gwell
- Prin yw'r mannau y mae pobl ifanc a phobl yn eu harddegau am eu defnyddio, mae hyn oherwydd goleuadau gwael, diffyg mannau awyr agored cysgodol, a grwpiau hŷn, sy'n defnyddio'r un mannau, yn cael eu dychryn
- Mae gerddi deniadol, llawn cymeriad yn agos at y stryd fawr; yr Ardd Berlysiau, Gerddi'r Hen Neuadd
- Mae'r ardal o dan yr A48 yn teimlo'n helaeth ac yn anweithgar, ond mae'n darparu cyswllt cryf i gerddwyr o Ysgol y Bont-faen i'r dref.

Tir Cyhoeddus

- Mae diweddariadau diweddar i ffryntiad yr Hen Neuadd yn gyfoes ac o ansawdd uchel, ac yn dangos enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth a rheoli cymunedol (drwy'r Ymddiriedolaeth Siarter) o brosiectau
- Mae llwybrau cerdded anffurfiol wedi gordyfu ac nid ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n mewn mannau, er enghraifft cysylltiadau trwy Gae'r Heddlu
- Prin yw'r seddi y tu hwnt i ganol y dref
- Mae'r plannu stryd ar hyd y Stryd Fawr yn gyfyngedig
- Mae'r Afon Ddawan, sy'n croesi o dan y Stryd Fawr, yn teimlo'n gudd mewn rhannau ac nid oes ganddi dirwedd feddal a nodweddion ecolegol
- Mae'r tir cyhoeddus y tu ôl i Neuadd y Dref yn brin o weithgarwch i'r rheini ar droed, nid ar gyfer traffig cerbydau yn unig
- Parcio sydd yn bennaf yn yr ardal o gwmpas The Butts, ac nid yw'n ddeniadol i gerddwyr
- Mae cyfuniad o arwyddion cyfoes a hanesyddol ar draws y dref, nad yw'n cyfleu ymagwedd tref gyfan.



Mae angen diweddaru'r parc sglefrio



Lle tanffordd wedi'i danddefnyddio



Llwybrau lleol sy'n cysylltu ag ardaloedd preswyl



Mae'r Ardd Berlysiau yn atyniad canolog i ymwelwyr



Gellid cynyddu arwyddion a chyfeirbyst ar draws y dref



Tir cyhoeddus cyfoes y tu allan i'r Hen Neuadd



Allwedd

- Mannau chwarae
- Caeau chwarae / meysydd hamdden
- Lawnt fowlio
- Cwrt Tennis
- Parciau a gerddi
- Rhandiroedd
- Tir crefyddol
- Mynwent
- Mannau agored eraill
- Cefn Gwlad
- Hawliau tramwy cyhoeddus
- Llwybr y Fro rhif 9

Y Bont-faen Heddiw

Defnydd Tir a Gweithgaredd

Mae'r Bont-faen yn cael ei nodi fel anheddiad canolfan wasanaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n gwasanaethu trigolion uniongyrchol y dref, ond hefyd y rheini yn y pentrefi cefnwlad cyfagos. Mae hefyd yn cael ei chydabod fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae'r amrywiaeth o siopau, gwasanaethau a defnyddiau dinesig sydd gan y Bont-faen i'w gynnig, yn denu nifer o ymwelwyr i ganol y dref ac yn cefnogi'r economi ymwelwyr a thwristiaeth leol drwy gydol y flwyddyn. Isod mae crynodeb o'r arsylwadau allweddol ynghylch defnydd tir a gweithgaredd, a gymerwyd o'r dadansoddiad bwrdd gwaith a'r ymweliad safle:

- Cynnig manwerthu mawr yng nghanol y dref sy'n cynnwys busnesau annibynnol yn bennaf. Mae 71% o'r siopau dosbarth A1 yn unigryw i'r Bont-faen (Adroddiad Towns Alive 2014)
- Rhai brandiau stryd fawr - Costa, Greggs, Specsavers, Waitrose
- Cyfleusterau cymunedol o fewn pellter cerdded o'r Stryd Fawr a'i gilydd (llyfrgell, canolfan hamdden, ysgolion)
- Mae cynnig cyfyngedig gyda'r hwyr yn golygu bod y dref yn dawel gyda'r hwyr
- Cynnig cyfyngedig i bobl ifanc a phobl yn eu harddegau
- Mae Fferm Forage yn atyniad i ymwelwyr ar gyrion canol y dref a allai annog mwy o ymwelwyr
- Mae'r ganolfan hamdden yn ganolfan dda i'r gymuned ac yn cefnogi ffyrdd o fyw iach, egnïol
- Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn sy'n denu nifer fawr o drigolion ac ymwelwyr, gan gynnwys:
 - » Marchnad Ffermwyr y Bont-faen (marchnad wythnosol ar ddydd Sadwrn)
 - » Gŵyl Bwyd a Diod y Bont-faen (gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal yn y gwanwyn)
 - » Balchder y Bont-faen (digwyddiad blynyddol a gynhelir ym mis Mehefin)
 - » Celf Agored y Bont-faen (digwyddiad blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Awst)
 - » Gŵyl Gerdd y Bont-faen (digwyddiad blynyddol yn cael ei gynnal ym mis Medi)
 - » Gorymdaith Goleuadau Nadolig y Bont-faen (digwyddiad blynyddol a gynhelir ym mis Tachwedd)



Mae amrywiaeth eang o siopau annibynnol yn helpu i ddenu ymwelwyr i'r dref



Mae digwyddiadau blynyddol yn y dref yn denu ymwelwyr a thrigolion lleol



Mae digwyddiadau blynyddol yn denu pob oedran ac yn hyrwyddo amrywiaeth o ddatblygiadau dinesig a diwylliannol



Trefniant ffordd cymhleth a gweithgarwch cyfyngedig y tu ôl i Neuadd y Dref



Cynnig cyfyngedig gyda'r hwyr



Mae blaenau siopau addurnedig ar hyd y Stryd Fawr adeg y Nadolig yn creu lleoliad hardd ac yn denu ymwelwyr s

Y Bont-faen Heddiw


Y Stryd Fawr

Y Stryd Fawr, gyda'i stryd linellol (sy'n ymestyn tua 1.17 cilomedr o Llantwit Major Road i Cardiff Road), amrywiaeth o adeiladau hanesyddol a chymysgedd o ddefnyddiau, yw nodwedd ddiffiniol y Bont-faen, y tyfodd y dref o'i chwmpas yn hanesyddol. Mae'n ymfalchïo yn ei hamrywiaeth o siopau annibynnol, siopau bwtic a manwerthwyr unigryw, llawer ohonynt wedi'u lleoli o fewn adeiladau mwyaf hanesyddol y dref.

Mae data ar gyfer y dref rhwng 2017 a 2019 yn nodi bod y dref wedi gweld gostyngiad mewn cyfraddau eiddo gwag o 28 i 21 o fusnesau, gyda chynnydd sylweddol yn y sector gwasanaeth (87 i 101 o unedau) a gostyngiad bach mewn busnesau cyfleuster.

O'i chymharu â threfi eraill ym Mro Morgannwg, mae gan y Bont-faen sin bwytaï a thafarndai traddodiadol gref a dewis eang o gaffis, gyda busnesau tecawê yn llai amlwg.

Mae'r cynllun gyferbyn yn nodi rhai agweddau allweddol ar y stryd fawr a'r profiad wrth gyrraedd i ymwelwyr a thrigolion.



Y Bont-faen Heddiw

Cymeriad a Threftadaeth

Mae'r Bont-faen yn dref farchnad hanesyddol sydd ag adeiladau yn dyddio'n ôl i'r cyfnod canoloesol, gyda thystiolaeth archeolegol yn awgrymu ei bod wedi'i sefydlu fel anheddiad Rhufeinig. Yn aml, ei gymeriad hanesyddol cyflawn yw'r hyn sy'n denu ymwelwyr i'r dref ac sy'n cyfoethogi profiad yr ymwelwyr.

Mae grwpiau cymunedol, fel yr Ymddiriedolaeth Siarter a'r Gymdeithas Hanes, yn cyfrannu at gadw a dehongli hanes yn y dref.

Isod mae crynodeb o'r arsylwadau allweddol ynghylch cymeriad a threftadaeth, a gymerwyd o'r dadansoddiad bwrdd gwaith a'r ymweliad safle:

- Mae cymysgedd o arddulliau adeiladau a lleiniau, sy'n dangos 'haenau' hanesyddol o sawl cyfnod megis y cyfnodau Canoloesol, Sioraidd, Fictoraidd a chyfoes
- Mae gan y stryd fawr aliniad dwyreiniol-gorllewinol ac wynebau adeiladau hanesyddol, sy'n arddangos amrywiaeth o ddeunyddiau lleol
- Mae lleiniau bwrdais wedi'u cadw (lleiniau hir, cul sy'n nodweddiadol o'r cyfnod Canoloesol) ar North Road sy'n nodwedd arbennig yn yr ardal i'r gogledd o'r Stryd Fawr ac yn nodwedd ddiffiniol o dwf hanesyddol y dref
- Mae cymeriad a threftadaeth y dref hon yn cael eu cadw'n dda a'u dathlu trwy ddigwyddiadau lleol, grwpiau gwirfoddol brwdfrydig, a thrigolion sy'n ymfalchïo yn eu cartrefi
- Nifer nodedig o blaciau glas ar amrywiaeth o adeiladau
- Llwybr treftadaeth drwy'r dref – Llwybr y Fro 09
- Mae adeiladau rhestredig allweddol yn cynnwys Neuadd y Dref, Eglwys y Groes Sanctaidd, Porth y Felin, hen Ysgol Ramadeg y Bont-faen a'r Great House yn ogystal â nifer o asedau dynodedig fel muriau'r dref
- Mae craidd hanesyddol y dref yn adlewyrchu cynllun y dref gaerog a ddatblygwyd yn y 13eg ganrif
- Cymeriad y dirwedd wedi'i ddiffinio gan ddyffryn Afon Ddawan, Bryn Llanfleiddan i'r gorllewin a brynau Bryn Owen i'r dwyrain
- Mae ardaloedd o gymeriad nodedig, fel y'u diffinnir gan y Cynllun Rheoli ac Arfarniad Ardaloedd Cadwraeth, yn tynnu sylw at yr amrywiaeth o ffurfiau adeiledig ar draws canol y dref, yn amrywio o dref farchnad hanesyddol i bentref gwledig, i estheteg datblygu preswyl cyfoes.



Nifer nodedig o blaciau glas



Mae'r waliau sy'n weddill yn diffinio ymyl ac amgae hanesyddol y dref



Adeiladau llawn cymeriad ar hyd y brif stryd, sy'n pwysleisio ffyniant yn ystod y 18fed/19eg ganrif



Waliau strwythurol hanesyddol yr Hen Neuadd, sy'n fframio ymylon Gardd yr Hen Neuadd



Eglwys y Groes Sanctaidd / Eglwys Sant Dochdwy



Adeilad Neuadd y Dref mewn arddull Sioraidd



Cofeb Ryfel ar y Stryd Fawr



Adfeilion Castell Llanfleiddan

Y Bont-faen Heddiw

Prosiectau Cyfagos

Mae'r cynllun gyferbyn yn dangos prosiectau allweddol sy'n berthnasol i'r Cynllun Creu Lleoedd, yn yr ystyr y gallant ddylanwadu ar brosiectau neu greu cyfleoedd newydd ar gyfer datblygu yn y Bont-faen. Mae'r prosiectau presennol sydd ar y gweill fel a ganlyn:

Safleoedd gyda cheisiadau cynllunio cymeradwy neu fyw

- A** Pentref Clare Garden (Wedi'i gymeradwyo ac yn cael ei adeiladu)
- Cynllun preswyl mawr â 475 o gartrefi ar hen ystâd Fferm Darren i'r gorllewin o ganol y dref. Mae'r cynllun yn cael ei gyflawni gan Taylor Wimpey, a gafodd ganiatâd cynllunio yn 2018. Mae'r cynllun wedi'i adeiladu'n rhannol ac mae'n cynnig amrywiaeth o fathau o dai, gyda nifer o unedau fforddiadwy yn cael eu darparu gan y Cyngor.

Bydd y datblygiad hefyd yn cynnwys adeiladu ffordd gyswllt yn cysylltu ffordd osgoi'r Bont-faen â Llanilltud Fawr, yn ogystal â llwybrau troed, beicffyrdd, tirlunio, a man agored cyhoeddus newydd.

Cyfleoedd

- Datblygiad sylweddol yn y Bont-faen gyda chyfleoedd i gynyddu nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref
- Wedi'i leoli 20 munud ar droed o'r canol – cyfleoedd i annog dulliau llesol o deithio i'r canol
- Yn rhoi mwy o ddewis o ran tai i bobl leol
- Adleoli Ysgol Iolo Morganwg yn y dyfodol.

- B** Datblygiad McCarthy Stone (Cais Cynllunio wedi'i Gymeradwyo)

Mae'r datblygiad hwn yn cynnwys 50 o fflatiau un a dwy ystafell wely ar gyfer byw ar ôl ymddeol, ynghyd â bloc swyddfa ar wahân, cyfleusterau cymunedol a maes parcio cysylltiedig.

Mae'r cais hefyd yn cynnwys gwaith priffyrdd ar yr A48 i greu mynediad i'r safle ac arafu traffig i mewn i'r safle.

Cyfleoedd

- Mae'r safle 10 munud ar droed o ganol y Bont-faen a fydd yn rhoi cyfle da i gael mwy o ymwelwyr yn y canol
- Lleoliad porth allweddol ar y ffordd orllewinol o'r A48, gan wella'r ffordd i mewn i'r Bont-faen
- Yn rhoi mwy o ddewis o ran tai i bobl hŷn, a allai fod yn ystyried symud i eiddo llai, ond aros yn agos at y canol.

- C** Ysgol Iolo Morganwg (Cais Cynllunio wedi'i Gymeradwyo)
- Mae gan Ysgol Iolo Morganwg gynlluniau i ehangu a symud i leoliad newydd yn Dunraven Close, gan agor cyfle i ddatblygu ar safle'r ysgol gynradd.

Cyfleoedd

- Bydd yr adeilad gwag yn cynnig cyfle i ailddatblygu yn agos at ganol y dref.
- Mae'r adeilad presennol yn unigryw ac yn llawn cymeriad, gan adlewyrchu natur hanesyddol y dref. Gallai defnyddiau yn y dyfodol gynnwys defnyddiau cymunedol ac addysgol newydd sy'n cynnwys pobl ifanc. Dylai defnyddiau yn y dyfodol fod yn ystyriol o'r cymeriad hanesyddol a'i gadw neu ei adlewyrchu lle bo hynny'n bosibl.

- D** Hen Orsaf yr Heddlu (Cais Cynllunio Cyfredol)

Datblygiad preswyl yn hen adeilad gorsaf yr heddlu a oedd yn cynnig ei addasu yn 6 o fflatiau ag 1 ystafell wely. Byddai'r safle hefyd yn cynnwys adeilad ychwanegol a fyddai'n cynnwys 8 o fflatiau ag 1 ystafell wely a lleoedd parcio cysylltiedig.

Cyfleoedd


- Datblygiad newydd yng nghanol y dref wrth borth allweddol
- Mynediad hawdd i gyfleusterau yng nghanol y dref
- Cyfle ar gyfer mwy o ddefnyddiau preswyl yng nghanol y dref.

- E** Datblygiad tai fforddiadwy ar hen safle Ysgol Gyfun y Bont-faen (Cais Cynllunio wedi'i Gymeradwyo – ar y safle)

Mae Tai Hafod yn adeiladu cartrefi fforddiadwy – 30 o fflatiau a phedwar tŷ gyda lleoedd parcio cysylltiedig.

Mae safleoedd eraill yn cynnwys:

- F** Datblygiad preswyl Redrow (Cais Cynllunio Cyfredol)
- Cais am gynllun preswyl sy'n cynnwys 105 o gartrefi, 42 ohonynt yn fforddiadwy, wedi'i leoli i'r de o ganol y dref, oddi ar Windmill Lane.



Prosiectau Cyfagos


Y Bont-faen Heddiw

Dadansoddiad SWOT Cyffredinol

Mae ymgysylltu â phartneriaid, rhanddeiliaid a'r gymuned leol wedi llunio gwell dealltwriaeth o'r Bont-faen a'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r dref.

Mae'r ymgysylltu cymunedol yn ogystal â'r dadansoddiad sylfaenol, ymweliad â'r safle ac ymgysylltu parhaus â Chyngor Bro Morgannwg a'r Cyngor Tref hefyd wedi cyfrannu at y dadansoddiad SWOT hwn ar gyfer canol y dref. Mae'r tablau canlynol yn crynhoi'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau a amlygwyd yn ystod y trafodaethau a'r astudiaethau hyn.

Bydd y ffordd hon o feddwl yn helpu i lywio'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Bont-faen ac yn helpu i strwythuro meysydd cyfleoedd posibl a phrosiectau yn y Cynllun Creu Lleodedd yn y dyfodol.



Cryfderau

- Tref farchnad hanesyddol lle mae adeiladau'n cadw llawer o gymeriad
- Amrywiaeth o siopau annibynnol sy'n apelio at ddemograffeg eang
- Lefelau uchel o ddefnydd ar hyd y Stryd Fawr
- Mae'r Ardd Berlysiau a Chastell Llanfleiddan yn atyniadau gwych i ymwelwyr ac mae'n hawdd eu cyrraedd o'r dref
- Mae Llwybr y Fro 9 (Llwybr Treftadaeth lolo Morgannwg) yn llwybr cylchol sy'n mynd â cherddwyr heibio safleoedd treftadaeth yn y dref ac yn cysylltu â chaeau cyfagos a llwybrau coediog
- Rhaglen o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn yn denu ymwelwyr a thrigolion
- Ymdeimlad cryf o gymuned yn y Bont-faen a fydd yn parhau i dyfu gyda Phentref Clare Garden
- Cynnig da o gyfleusterau ac amwynderau lleol
- Llawer o fannau agored o amgylch canol y dref y gellir eu cyrraedd yn hawdd
- Grwpiau cymunedol gweithredol sy'n ymfalchïo yng nghanol eu tref
- Tref ddiogel a thawel
- Gwerthfawrogiad o leoliad gwledig y dref, gyda phwyslais ar werth mannau gwyrdd ar gyfer lles a hamdden
- Cymharol hawdd cael mynediad ar droed neu mewn car



Gwendidau

- Dim pyrth mynediad wedi'u diffinio'n glir i ganol y dref – yn amharu ar y profiad o gyrraedd • Ardaloedd mawr o leoedd parcio ar y stryd
- Nifer cyfyngedig o groesfannau rheoledig ar gyfer cerddwyr
- Llwybr cymhleth o amgylch Neuadd y Dref
- Nifer cyfyngedig o fannau storio a seilwaith beiciau
- Troedffyrdd cul a strydoedd gorlawn
- Datgysylltiad rhwng mannau gwyrdd
- Anodd adnabod ble mae'r ardaloedd allweddol fel ymwelydd
- Llwybrau â gordyfiant a llwybrau anffurfiol i gerddwyr
- Mae Afon Ddawan yn ased sydd wedi'i guddio mewn rhannau
- Cynnig cyfyngedig i deuluoedd, plant iau a phobl ifanc yn eu harddegau
- Cynnig cyfyngedig gyda'r nos
- Diffyg gofod clir ar gyfer ymgynnull
- Nifer cyfyngedig o gysylltiadau clir ar droed rhwng Pentref Clare Garden a chanol y dref
- Barn leol bod siopau ar hyd y Stryd Fawr yn rhy ddrud
- Strydoedd gorlawn a sbwriel
- Cysylltedd digidol gwael



Cyfleoedd

- Potensial i wella'r ardal o amgylch Neuadd y Dref i greu gofod i ymgynnull ac adeiladu elfennau cymdeithasol y dref
- Gwelliannau i fannau gwyrdd yn y ganolfan hamdden
- Creu strategaeth mannau gwyrdd i gysylltu mannau trwy lwybrau hygyrch ac arwyddion
- Cyfle i gydlyn digwyddiadau gyda busnesau lleol i gynyddu nifer yr ymwelwyr a'r cynnig
- Defnyddiau dros dro o unedau gwag
- Croesfannau ychwanegol ar hyd y Stryd Fawr
- Culhau'r lôn gerbydau i alluogi llwybrau troed lletach ar y Stryd Fawr
- Adolygiad o barcio ar y stryd ac ansawdd parcio ar yr wyneb
- Cyfleoedd i logi e-feiciau/beiciau i annog teithio llesol
- Llwybrau treftadaeth newydd
- Cyflwyno lleoedd preswyllo o safon yn y dref i bobl gwrdd a threulio amser gyda'i gilydd gan gynyddu nifer yr ymwelwyr
- Creu pyrth a ffyrdd i gyrraedd y Bont-faen
- Gellid cysylltu'r broses o wella brandio lleoedd a dathlu hunaniaeth gyda'r broses o wella arwyddion a chyfeirbyst
- Defnyddio'r lleoliad i hyrwyddo iechyd a lles i drigolion ac ymwelwyr
- Canolbwyntio ar fod yn gyrchfan ar gyfer ardal ehangach drwy hyrwyddo'r dref a'r cyfleusterau y mae'n eu darparu



Bygythiadau

- Gall y symud parhaus o siopa mewn siopau i siopa ar-lein fygwth manwerthwyr annibynnol
- Nid yw'r cynnig presennol yng nghanol y dref yn apelio at bawb – mae llai o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc a'r rhai sy'n eu harddegau – bygythiad i fusnesau a thrigolion lleol
- Effaith ar wasanaethu a chyflenwi os yw parcio ar y stryd yn cael ei ailddiffinio ar y Stryd Fawr
- Gwrthdaro posibl gyda'r rhai sy'n byw ar y Stryd Fawr / Westgate / Eastgate os bydd economi'r nos yn tyfu
- Cynnydd posibl mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol os oes gan ddemograffeg iau lai o leoedd i ymgynnull / teimlo'n ddiogel

PENNOD 5

GWELEDIGAETH AC AMCANION

Gweledigaeth ar gyfer y Bont-faen

Naratif y Bont-faen

Mae’r naratif ar gyfer y Bont-faen wedi’i lywio gan y broses ymgysylltu a’r adolygiad o’r adborth a roddwyd. Mae’r Weledigaeth ar gyfer y dref wedi’i drafftio o’r naratif hwn.

Heini, Hygyrch a Llawn Hwyl

Mae gan y Bont-faen amrywiaeth o fannau gwyrdd a digon o gyfleoedd i gadw’n heini. Mae yna glybiau chwaraeon cyfeillgar gan gynnwys criced, rygbi, tenis a phêl-droed, yn ogystal â chanolfan hamdden yng nghanol y dref. Fodd bynnag, byddai mwy o gyfleusterau i bobl ifanc yn cael eu croesawu. Mae lleoliad y dref, wedi’i amgylchynu gan dir pori bryniog a lleoedd hanesyddol, yn annog archwilio, gyda gweithgareddau cerdded a beicio poblogaidd i drigolion ac ymwelwyr. Mae awydd i hon fod yn dref ‘Croeso i Gerddwyr’ sy’n caru cŵn a cherddwyr cŵn, gyda’r mwyafrif o sefydliadau’n eu croesawu gan arddangos logo ‘Pawennau’r Fro’.

Mae’r Bont-faen yn lle clòs sydd angen sicrhau ei fod yn hygyrch i bawb, ac yn hawdd a dymunol i gerdded o’i gwmpas. Mae hynny’n golygu mwy o fannau preswyllo a rhoi ystyriaeth i bobl ag anableddau. Er enghraifft, hyrwyddo statws y dref fel Tref sy’n Deall Dementia ymhellach trwy welliannau i’r ardal gyhoeddus. Mae’n hanfodol creu profiad ysgogol yn y dref trwy gyfeirbyst ac adrodd straeon, ac amlygu’r asedau yn yr ardal gyfagos. Mae angen i’r Bont-faen fod yn fan lle mae pobl yn mwynhau treulio amser a gall adeiladu ar ei digwyddiadau llwyddiannus fel yr Ŵyl Fwyd a Diod, yr Ŵyl Gerdd, Gorymdaith y Ceirw a Pride, i greu rhaglen drwy gydol y flwyddyn i gynyddu nifer yr ymwelwyr.

Lleoliad i Fyw

Mae’r Bont-faen yn lle dymunol iawn i fyw ac mae datblygiadau diweddar wedi dod â phobl newydd i’r dref. Wrth i’r dref dyfu, mae angen iddi ddarparu ar gyfer trigolion newydd a phresennol a darparu’r ‘glud’ sy’n eu clymu gyda’i gilydd. Mae’r rhai sy’n symud i mewn i fwynhau’r hyn sydd gan y Bont-faen i’w gynnig hefyd yn chwarae rôl wrth fod yn geidwaid ar gyfer dyfodol y dref. Mae gan y lle ddemograffeg fwy aeddfed ac mae wedi bod yn lle deniadol ar gyfer ymddeol, ond mae angen i’r cynnig yn y dref adlewyrchu dyfodiad demograffeg iau a theuluoedd, yn ogystal â gwneud mwy i ddarparu ar gyfer y bobl ifanc sydd eisoes yn y dref.

Mae’r Bont-faen yn lle gwych i weithio a byw, gan gynnig ansawdd bywyd eithriadol a diogel. Gall pobl weithio gartref a chwrdd neu gymdeithasu mewn caffis o fewn pellter cerdded. Mae busnesau annibynnol, closrwydd a chyfleustra’r dref, yn creu awyrgylch cyfeillgar ac yn golygu bod trigolion yn teimlo’n rhan o’r dref, gan feithrin ymdeimlad o gymuned.

Y Bont-faen yw Pen y Daith

Fel tref hanesyddol a hardd, mae gan y Bont-faen gyfle i fod yn ganolbwynt dymunol iawn i archwilio a mwynhau’r ardal gyfagos. O’r dref gallwch ymweld â phentrefi hynod cyfagos yn hawdd neu gyrraedd yr arfordir neu’r ddinas mewn hanner awr. Gellir mwynhau traethau hardd, Arfordir Treftadaeth Morgannwg a choetiroedd gwych ar hyd deg Llwybr y Fro. Mae angen i’r Bont-faen wneud y gorau o’i chynnig trwy ei becynnu; mae’r Ardd Berlysiau, muriau canoloesol, Castell Llanfleiddan, Castell y Bewpyr, gwinllannoedd a chynhyrchwyr bwyd a diod eraill i gyd yn cynnig profiad unigryw ac o ansawdd uchel.

Er bod natur fawreddog ac annibynnol y Bont-faen yn barod i ddarparu cynnig cyrchfan, bydd angen iddi dyfu ei chynnig o ran llety a bwyd a diod. Gallai canol y dref hefyd fod yn ffenestr siop ar gyfer yr ardal ehangach, gan gyfathrebu ehangder ac ansawdd y cynnig twristaidd yn y cyffiniau. Y nod yw bod yn gyrchfan i drigolion, siopwyr, ciniawyr a thwristiaid.

Profiad balch, annibynnol a mawreddog

Mae’r Bont-faen yn falch o’i busnesau annibynnol a’i hymdeimlad o gyfoeth. Mae’n ymfalchïo yn ei harweinyddiaeth gymunedol wych ac wedi datblygu cynnig canol tref sy’n wirioneddol annibynnol, unigryw, ac yn gynyddol boblogaidd. Mae hefyd wedi’i hamgylchynu gan bentrefi llai ac yn darparu gwasanaethau pwysig iddynt. Fodd bynnag, mae angen i’r profiad fod yn fwy cynhwysol o bobl ifanc sydd angen lleoedd i ymgynnull, ymlacio a chael hwyl. Mae’r dref yn cyfuno amgylchedd naturiol hardd gydag amgylchedd trefol uchelgeisiol a llawn cymeriad sy’n creu ymdeimlad diamheuol o le. Mae’r Bont-faen yn lle arbennig i drigolion ac ymwelwyr, ac mae’n ganolbwynt gwerthfawr yng nghanol y Fro.

Gweledigaeth ar gyfer y Bont-faen

Gweledigaeth ac Amcanion

“Bydd y Bont-faen yn adeiladu ar ei threftadaeth, yn cofleidio menter leol ac yn creu amgylchedd cysylltiedig, cynhwysol a gwyrddach i bawb. Bydd y Bont-faen yn dref lle mae treftadaeth gyfoethog yn cwrdd â dyfodol bywiog sy’n cael ei lywio gan y gymuned.”

Nod y weledigaeth yw diffinio lle y gall busnesau annibynnol lleol ffynnu ynddo ar stryd fawr ddeinamig, gall cymdogion gysylltu mewn mannau cymunedol, ac mae teithiau cerdded hardd a phrofiadau bwyta unigryw yn denu ymwelwyr i archwilio'r Fro.

Delweddau enghreifftiol o sut y gall ymyriadau bach gael effaith fawr ar fywiogrwydd lle.



Er mwyn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer y Bont-faen, mae pum amcan allweddol wedi'u nodi a fydd yn gyrru'r prosiectau a buddsoddiadau yn y dyfodol yn y Bont-faen.

Daeth yr amcanion i'r amlwg drwy gasglu barn yn ystod proses ymgysylltu helaeth ac o'r canfyddiadau o'r dadansoddiad sylfaenol.

Mae'r strategaeth Creu Lleoedd wedi'i hategu gan pump amcan allweddol. Mae'r cynigion sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd cyfle a'r prosiectau ledled y dref yn cyflawni yn erbyn yr amcanion hyn.


Cynnal stryd fawr ddeinamig a deniadol - Mae'r Bont-faen yn adnabyddus am ei chynnig o fusnesau annibynnol, lleol ond mae angen cefnogi'r Stryd Fawr i arallgyfeirio ac addasu os yw am barhau â'i llwyddiant mewn amgylchedd sy'n newid. Bydd ehangu'r cynnig gyda'r nos, gwella hygyrchedd trwy drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, a gwella'r tir cyhoeddus yn helpu i gyflawni hyn.

Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud Trwy'r Dref - Bydd llwybrau wedi'u harwyddo'n dda gyda gwell wyneb ar y llwybrau troed sy'n cysylltu ardaloedd preswyl â chanol y dref a mannau gwyrdd yn galluogi mwy o drigolion i gerdded a beicio. Gallai llwybrau diogel a hygyrch o fewn y Bont-faen hefyd greu cyfleoedd i gysylltu â llwybrau estynedig i bentrefi cyfagos.

Cadw a Dathlu - Diffinnir hunaniaeth y Bont-faen i raddau helaeth gan ei chymeriad hanesyddol a swynol. Mae'n lle ar gyfer teithiau cerdded hardd ac mae'n cynnwys llawer o asedau gwyrdd sy'n rhoi cyfle i wella hamdden a lles pob oedran. Bydd creu cyfleoedd i ddathlu treftadaeth ac amgylchedd naturiol y dref yn cynyddu ei hatyniad fel cyrchfan i ymwelwyr yn ogystal â'r gymuned ehangach.

Tref Amlswyddogaethol Sy'n Cefnogi Poblogaeth Sy'n Newid - Mae'r gymuned yn ymfalchïo mewn traddodiad ac annibyniaeth ond mae'n croesawu arloesedd a stiwardiaeth gymunedol. Bydd meithrin ymdeimlad o gymuned a galluogi dull rhagweithiol o weithredu yn cefnogi poblogaeth sy'n newid ac yn sicrhau bod y Bont-faen yn lle i bawb.

Lle Gwych i Bobl Ifanc Fyw, Ffynnu a Pherthyn iddo - Bydd mwy o weithgareddau a chyfleusterau gwell yn benodol ar gyfer pobl ifanc yn darparu cyfleoedd iddynt gymdeithasu yn y dref a theimlo mwy o gysylltiad â'r gymuned leol.



PENNOD 6

SUT GALLWN EI GYFLAWNI?

SUT GALLWN EI GYFLAWNI?

Crynodeb o'r Strategaeth Cynllun Creu Lleoedd


Mae'r bennod ganlynol yn manylu ar y Strategaeth Cynllun Creu Lleoedd sy'n cyflwyno'r cyfleoedd a'r prosiectau ffisegol allweddol ledled y dref sy'n cefnogi'r Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Bont-faen. Mae'n ymateb i gryfderau presennol a nodweddion y Bont-faen ac yn eu hategu.

Mae'r Strategaeth Cynllun Creu Lleoedd yn nodi 5 Ardal Gyfle Allweddol sy'n cael eu cefnogi gan gyfres o brosiectau ledled y dref y manylir arnynt yn ddiweddarach yn y bennod hon.

Gellid cyflawni elfennau o bob un o'r prosiectau ar draws y byrdymor, y tymor canol a'r hirdymor. Maent yn dangos celfyddyd y posibl yn y Bont-faen, a bydd yn destun ymgynghori pellach a phrofion dichonoldeb gydag ystod o randdeiliaid.

Bydd y strategaeth ar gyfer y Bont-faen yn:

- Dathlu treftadaeth y dref, gan ddod â gweithgarwch a bywiogrwydd yn ôl i'r Stryd Fawr.
- Plethu ardaloedd allweddol o'r dref ynghyd ar hyd y Stryd Fawr
- Amlygu asedau gwyrdd sylweddol y Bont-faen a sut y gellid cysylltu'r rhain yn well a chryfhau'r pyrrh iddynt.
- Gosod ymyriadau ardal gyhoeddus ger bron a fyddai'n cefnogi ymwelwyr a'r gymuned leol i archwilio ac oedi mwy.
- Dal yn ôl ar y manylion, gan ganiatáu i'r dyluniad terfynol a'r math o ddatblygiad (ystyriaethau o ran graddfa, ffurf, cymysgedd defnydd tir a faint o dir cyhoeddus ar gyfer unrhyw safle cyfle posibl yn y dyfodol) gael ei sefydlu a'i ystwytho yn dibynnu ar asesu, ymgynghori ac argaeledd cyllid yn y dyfodol.



Sut Gallwn Ei Gyflawni?

Y Cynllun Creu Lleoedd - Strategaeth Ofodol

Strategaeth y Cynllun Creu Lleoedd

Mae Strategaeth y Cynllun Creu Lleoedd yn cyfuno cynigion gofodol a symud, gan adlewyrchu amcanion y Cynllun Creu Lleoedd a chyd-fynd â Siarter Creu Lleoedd Cymru. Mae hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.

Nod y strategaeth yw hoelio'r blaenoriaethau a nodwyd trwy ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfleoedd strategol ehangach mewn ffordd gydgyssylltiedig.

Mae pwyslais ar yr ardal gyhoeddus a gwella amgylchedd y stryd ac mae'r cynigion wedi'u nodi yn y cynllun gyferbyn.

Pobl a Chymuned

- Mae'r gymuned leol wedi bod yn ymgysylltu o'r dechrau'n deg i bennu eu hanghenion, ac i nodi beth sy'n bwysig iddyn nhw am eu tref. Mae'r holl ddata sydd ar gael, fel data demograffig, wedi'i ystyried, i gefnogi'r wybodaeth ansoddol a gasglwyd trwy'r broses fapio gymunedol.
- Mae'r cynigion wedi'u datblygu i ddiwallu'r anghenion hynny, yn ogystal â gwella'r ymdeimlad o gymuned yn y Bont-faen.

Hunaniaeth

- Creu ffocws dinesig a diwylliannol yng nghanol y dref ar gyfer ymwelwyr a thrigolion. Mae lleoliad nodweddion porth yn cynnwys i mewn ac allan o'r Bont-faen ar Eastgate a Westgate, gan ddatlu balchder a hunaniaeth leol y dref.
- Nodi adeiladau hanesyddol pwysig y dylid eu cefnogi i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion eu meddianwyr neu os ydynt yn wag, i'w cefnogi i adfer eu defnydd.
- Dyrannu lleoedd ac uwchraddio cyfleusterau lleol sy'n gynhwysol ac y gellir eu defnyddio gan bob grŵp oedran.

Symud

- Gweithredu amrywiaeth o ymyriadau gan gynnwys gwelliannau cyffyrdd, croesfannau i gerddwyr a nodweddion porth wrth gyrraedd y Bont-faen. Mae trefi hanesyddol dros amser wedi gorfod addasu i ofynion traffig cerbydau a seilwaith, a all greu problemau a gwrthdaro rhwng symudiadau lleol a rhai trwedd ehangach.
- Canolbwyntio ar amgylchedd stryd canol y dref, gan fynd i'r afael â chroesi'r Stryd Fawr, profiad Sgwâr Neuadd y Dref, yn ogystal â chyflwyno gwelliannau i ansawdd yr ardal gyhoeddus, a fydd yn gwella nifer yr ymwelwyr a'r amser oedi, gan gefnogi busnesau lleol.
- Bydd creu arwyddion ledled y dref a strategaeth canfod ffyrdd yn caniatáu mwy o fynediad hamdden a thwristiaid i gyrchfannau yn y Bont-faen tra'n lleihau'r anhrefn stryd cyffredinol – rheiliau/bolardiau ac ati.
- Blaenoriaethu symudiad cerddwyr drwy ganol y Bont-faen ac ailystyried trefnu a darparu parcio ceir mewn lleoliadau cyrchfan fel yr Hen Farchnad Da Byw, y tu ôl i Neuadd y Dref ac o dan Ffordd Osgoi'r Bont-faen. Rhaid cydbwyso gwella'r profiad i bobl â'r gofynion parcio a mynediad ar gyfer busnesau masnachol sydd yng nghanol y dref.
- Gwella ansawdd llwybrau cerdded, arwyneb mwy hygyrch, a sicrhau bod llwybrau yn cysylltu lleoedd lle mae angen i bobl fynd amlaf.

Ardal Gyhoeddus

- Gwella ansawdd ardal gyhoeddus y Stryd Fawr drwy newidiadau o ran deunyddiau, culhau cerbyttffyrdd yn lleol a gwaredu rhai mannau parcio ar y stryd, creu treflun cydgysylltiedig ac o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â chymeriad hanesyddol adeiladau'r Bont-faen yn ogystal â darparu lle i bobl oedi.
- Clustnodi ardaloedd lle gellir annog gwell plannu neu blannu ychwanegol i gynnig mwy o werth amwynder, bioamrywiaeth a chynaliadwyedd. Bydd hyn o fudd i drigolion ac yn gwella lleoliad ac ansawdd treflun y Stryd Fawr.

- Cyflwyno mwy o seilwaith gwyrdd a nodweddion SDCau i wella gwerthoedd amwynder a chyfrannu at fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd.

Cyfuniad o Ddefnyddiau

- Darparu canolfan symudedd yng nghefn Neuadd y Dref a allai gynnwys parcio beiciau saff a diogel, llogi beiciau / sgwteri, amserlenni, cysgodfan, seddi, planhigion a chiosg.
- Bydd uwchraddio Neuadd y Dref a'r Hen Neuadd yn annog mwy o ddefnydd a defnydd ehangach ar y cyfleusterau presennol, a fydd yn denu mwy o bobl i ganol y dref. Gallai darparu cymysgedd defnydd ehangach ddarparu ar gyfer pob oedran. Byddai'n annog mwy o weithgareddau i bobl ifanc yn y dref, yn ogystal â chefnogi economi'r nos.
- Nodi prosiectau piblinell y gellir eu cysylltu â'r dref trwy wahanol lwybrau cerdded.
- Sicrhau bod hygyrchedd bysiau yn parhau yng nghanol y dref, gan sicrhau bod trigolion, cymdogion o Lanfleiddan, Aberthin a phentrefi eraill, yn ogystal ag ymwelwyr yn parhau i gael eu gwasanaethu'n dda gan fusnesau'r Stryd Fawr.



Prif Nodweddion


- Prif lwybrau cerbydau
- Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol
- Llwybr y Fro rhif 9
- Parcio ceir presennol
- Mur Hanesyddol
- Pyrth Cyrraedd Allweddol
- Ffryntiad gweithredol craidd manwerthu
- Buddsoddiad diweddar / Prosiectau Piblinell:

- Clare Garden Village
- Datblygiad McCarthy Stone
- Hen Orsaf Heddlu
- Datblygiad Preswyl Redrow
- Hen Adeilad Ysgol Gyfun y Bont-faen
- Ysgol Iolo Morganwg

Cyfleoedd a chamau allweddol ar gyfer y cynllun creu lleoedd

- Sefydlu pwyntiau porth i ganol y dref
- Gwell llwybrau i gerddwyr i gysylltu â'r rhwydwaith presennol
- Llwybrau gyda gwell seilwaith beicio
- Llwybr allweddol i gerddwyr trwy fannau gwyrdd presennol sy'n cynnig llwybr amgen i'r Stryd Fawr
- Gwell cysylltiadau gwyrdd trwy fan agored cyhoeddus, yn gysylltu â llwybrau presennol a HTCa
- Gwelliannau Ardal Gyhoeddus yn canolbwyntio ar aiddylunio'r lôn gerbydau gyda phethau fel deunyddiau newydd, gwelliannau cyffyrdd, gwelliannau croesfan i gerddwyr, lledu'r droedffordd, culhau'r lôn gerbydau ac ati.
- Gwelliannau ardal gyhoeddus yn canolbwyntio ar arwyddion, dynodi llwybrau, gwyrddu strydoedd a blaenoriaethu symudiadau cerddwyr
- Cyfleoedd ar gyfer pwyntiau croesi - croesfan sebra neu newid materol
- Potensial ar gyfer ailgyfeirio traffig a gwelliannau cyffordd ger neuadd y dref a Waitrose
- Pwyntiau allweddol ar gyfer arwyddion newydd a dynodi llwybrau
- Gwelliannau tirwedd - plannu newydd, trin ffiniau, gwelliannau bioamrywiaeth
- Parcio ceir cyrchfan posibl
- Maes ffocws ymyrraeth o fewn cynllun creu lleoedd:

- 1 Sgwâr Neuadd y Dref
- 2 Yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd
- 3 Safle'r hen farchnad da byw
- 4 Bear Field
- 5 High Street



Sut Gallwn Ei Gyflawni?

Ardaloedd Cyfle yng Nghanol y Dref

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi nodi 5 Ardal Cyfle allweddol ar draws canol y dref a all gael effaith drawsnewidiol ar y Bont-faen.

Bydd canolbwyntio ar yr ardaloedd hyn yn cyfarch gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Creu Lleoedd a hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion Siarter Creu Lleoedd Comisiwn Dylunio Cymru.

Mae'r 5 Ardal Cyfle yn cynnwys:


- **Ardal Gyfle 1: Sgwâr Neuadd y Dref**
- **Ardal Gyfle 2: Yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd**
- **Ardal Gyfle 3: Safle'r Hen Farchnad Da Byw**
- **Ardal Gyfle 4: Cae'r Bear**
- **Ardal Gyfle 5: Stryd Fawr**

Dros y tudalennau canlynol ceir rhagor o fanylion ar gyfer pob Ardal Cyfle, gan esbonio:

- **Pam** fod y cam gweithredu hwn wedi'i ddewis?
- **Sut** mae prosiectau ac ymyriadau yn cael eu cyflawni?
- **Pwy** a allai fod yn gyfrifol am hwyluso ac ariannu'r prosiectau a'r ymyriadau hyn?
- **Ble** yn y Bont-faen allai'r prosiectau a'r ymyriadau hyn gael eu cyflawni?

Mae pob un o'r Ardaloedd Cyfle yn cynnwys nifer o brosiectau ac ymyriadau a allai fod yn fyrdymor, tymor canol a hirdymor ac a allai gynnwys ymwneud gan ystod o randdeiliaid.

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hefyd yn nodi cyfleoedd y tu hwnt i ganol y dref. Cefnogir y 5 Ardal Cyfle gan gyfres o brosiectau ledled y dref y manylir arnynt yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.



Mae'r cynllun gyferbyn yn nodi ble mae'r 5 Ardal Cyfle wedi'u lleoli ar draws y Bont-faen a sut y gall ymyrraeth yn yr ardaloedd hyn, mawr neu fach, gael effaith sylweddol, gadarnhaol ar fywiogrwydd y dref yn y dyfodol.

Prif Nodweddion

- Pwyntiau diddordeb allweddol
- Parcio ceir presennol
- Asedau treftadaeth
- Mur Hanesyddol

Camau fframwaith

- Gwell llwybrau cerdded a/neu beicio
- Gwelliannau i'r ardal gyhoeddus yn canolbwyntio ar ailddylunio'r lôn gerbydau a allai gynnwys deunyddiau newydd, gwelliannau cyffyrdd, gwelliannau croesfan i gerddwyr, cyfleusterau parcio ffurfiol, lleu'r droedffordd, culhau'r lôn gerbydau, tawelu traffig a thynhau cyffyrdd
- Gwelliannau ardal gyhoeddus yn canolbwyntio ar arwyddion, dynodi llwybrau, gwyrddu strydoedd a blaenoriaethu symudiadau cerddwyr
- Parth dangosol gyda chyfleoedd ar gyfer gwella pwyntiau croesi newydd - croesfan sebra neu newid materol
- Potensial ar gyfer ailgyfeirio traffig a gwelliannau cyffordd ger neuadd y dref a Waitrose
- Gwelliannau tirwedd - plannu newydd, trin ffiniau, gwelliannau bioamrywiaeth

Lleoliad ardaloedd cyfle

- Sgwâr Neuadd y Dref
- Yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd
- Safle'r hen farchnad da byw
- Bear Field
- High Street



Ardal Cyfle 1: Sgwâr Neuadd y Dref

Pam

Mae Neuadd y Dref rhestredig Gradd II y Bont-faen yn sefyll fel un o adeiladau hanesyddol mwyaf adnabyddus y Bont-faen ac mae'n ffurfio nodwedd dreflun nodedig ar hyd y Stryd Fawr. Dyma galon sifig y Bont-faen, ac ar hyn o bryd mae'n cynnig gofod digwyddiadau mewnol i ymwelwyr a thrigolion lleol. Mae ymgynghoriad cymunedol wedi nodi bod Neuadd y Dref yn annwyl gan lawer ac yn cynnig cyfle i sicrhau bod ei rôl gymdeithasol a diwylliannol o fewn y gymuned leol yn parhau. Mae disgwyl i Neuadd y Dref hefyd dderbyn buddsoddiad i wella cyflwr mewnol yr adeilad a bydd yr Ardal Gyfle hon yn helpu i wneud y mwyaf o'r buddsoddiad yr ymrwymwyd iddo eisoes.

Bydd y prosiect Ardal Gyfle yma yn cydnabod pwysigrwydd Neuadd y Dref fel cyrchfan, trwy gyfrwng ardal gyhoeddus wedi'i hailgyflunio a'i gwella, gan greu cyrchfan gymunedol i amrywiaeth o ddigwyddiadau dan do ac awyr agored gydol y flwyddyn. Bydd hefyd yn hyrwyddo mwy o gysylltedd teithio llesol trwy'r ardal

- Sut**
- Prosiectau Tymor Byr**
- Hyrwyddo a churadu gofodau hyblyg, gweithio a swyddogaethol yn Neuadd y Dref i annog defnydd mwy amrywiol o'r adeilad. Bydd hyn yn creu incwm ychwanegol, yn cynyddu'r defnydd cymunedol ar y gofodau, yn annog twristiaeth ac yn cyfrannu at yr economi leol.
 - Gwelliannau mewnol fel paentio ac addurno ac arwyddion i wella ymarferoldeb yr adeilad.
 - Gwell goleuadau o flaen Neuadd y Dref i ddathlu arwyddocâd yr adeilad a'i gymeriad hanesyddol.
 - Archwilio opsiynau i gadw safle bws ar Sgwâr Neuadd y Dref neu symud pob bws i'r Stryd Fawr.
 - Treialu ail-drefnu'r llwybr unffordd i gerbydau o amgylch Neuadd y Dref fel modd lleihau tagfeydd gyda chyffordd Waitrose.

- Prosiectau Tymor Canolig**
- Dylunio a phrofi opsiynau i ail-drefnu symudiadau traffig o amgylch Neuadd y Dref yn seiliedig ar ganlyniadau'r arbrawf tymor byr.
 - Dyluniadau cysyniadol i ail-drefnu'r ardal i gynnwys Canolfan Symudedd, gwelliannau i'r ardal gyhoeddus, gwell cysylltiadau i gerddwyr o'r Stryd Fawr ac Ysgol y Bont-faen, plannu ar y stryd, croesfannau, peiriant ATM a seddi gwell.
 - Creu gofod sifig awyr agored i ganiatáu dathliadau cymunedol, digwyddiadau awyr agored ac amser oedi.
 - Maes parcio posibl o dan y ffordd osgoi.
 - Bydd gwell cysylltiadau trwy'r gofod sifig i Penny Lane yn cysylltu'r siopau a'r busnesau presennol yn well yn ogystal â gwella mynediad a golygfeydd i Afon Ddawan.
 - Gwell arwyddion a dynodi llwybrau fel rhan o strategaeth ledled y dref

- Prosiectau Tymor Hir**
- Cyfres lawn o welliannau i'r ardal gyhoeddus o amgylch adeilad Neuadd y Dref, ei strydoedd a'r sgwâr gan gynnwys newidiadau o ran deunydd a phalmentydd, tirweddu meddal, dodrefn stryd, arwyddion a dynodi llwybrau a goleuadau.
 - Ail-drefnu'r cyffyrdd i'r Stryd Fawr gyda'r potensial i gynnwys cyffordd ddyrchafedig

- Pwy**
- Cyngor Bro Morgannwg
 - Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan
 - Grwpiau a Chymdeithasau Cymunedol Lleol
 - Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen
- Ble**
- Neuadd y Dref (y tu mewn a'r tu allan) a'r gofod o flaen Neuadd y Dref
 - Sgwâr Neuadd y Dref (gofod y tu ôl i Neuadd y Dref)
 - Integreiddio â'r Stryd Fawr

- Mae Ardal Cyfle 1 yn cyfrannu at amcanion canlynol y Weledigaeth:**
- Cadw a Dathlu
 - Tref Amlswyddogaeth Sy'n Cynnal Poblogaeth sy'n Newid
 - Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud Trwy'r Dref

- Mae Ardal Cyfle 1 yn cefnogi egwyddorion canlynol Siarter Creu Lleoedd Cymru:**
- Pobl a Chymuned
 - Ardal Gyhoeddus
 - Lleoliad
 - Hunaniaeth
 - Symud




Canolfan Symudedd, Stirling



Gofod Sifig Awyr Agored, Efrog



Addurno stryd, Quebec



Ardal Cyfle 2: Yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd

Pam

Mae adborth o ymgysylltu lleol wedi tynnu sylw at yr Hen Neuadd ac mae ei gerddi tawel yn rhan hanesyddol a diwylliannol bwysig o hunaniaeth y dref. Yn ogystal â bod yn ased pensaernïol a threftadaeth, mae'r Hen Neuadd yn lle i fwynhau'r celfyddydau, diwylliant ac addysg. Mae Gerddi'r Hen Neuadd yn dramwyfa ddymunol i bobl leol sy'n mynd drwodd o'r Stryd Fawr ac ymlaen i'r Gerddi Perlaysiau. Trwy greu perthynas well rhwng adeilad yr Hen Neuadd a'i erddi cefn a gwneud gwell defnydd o ofod mewnol yr adeilad, gall yr ardal hon ddod yn gyrchfan sy'n canolbwyntio ar ddefnydd cymysg, y celfyddydau a diwylliant yn y Bont-faen. Dylai digwyddiadau a chyfleusterau sydd ar gael yn yr Hen Neuadd fod yn wahanol i'r cynnig yn Neuadd y Dref, gan ganolbwyntio ar y celfyddydau, adloniant ac addysg.

Sut

Prosiectau Tymor Byr

- Hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau yn yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd, gan gynnwys gweithio gyda grŵp gwirfoddolwyr Gerddi'r Hen Neuadd yn ogystal ag estyn allan at grwpiau a chymdeithasau cymunedol lleol eraill. Gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo'n well yr hyn sy'n digwydd yn yr Hen Neuadd, i drigolion ac ymwelwyr, a chysylltu hyn â gwefannau partner fel Bro Morgannwg.
- Creu oriel a gofod arddangos mewn ystafelloedd heb eu defnyddio yn yr adeilad i gefnogi pobl greadigol yn y gymuned.
- Arwyddion a dynodi llwybrau o'r Stryd Fawr trwy'r Hen Neuadd ac ymlaen i Erddi'r Hen Neuadd.
- Gwella lleoliad a gwybodaeth hanesyddol yr adeilad yn y cefn, gan annog pobl i oedi yn yr ardal a dysgu mwy am ei arwyddocâd diwylliannol a'r dreftadaeth.

Prosiectau Tymor Canolig

- Gwelliannau i alluogi Gerddi'r Hen Neuadd i gynnal digwyddiadau cymunedol. Gan weithio ar y cyd â grwpiau gwirfoddol rhagorol sy'n cynnal a chadw'r gerddi, gellid gwella'r Llyfrgell a'r Hen Neuadd i greu gofod awyr agored ar y cyd, gydag arwyneb caled, ger yr adeilad presennol y gellid ei ddefnyddio i gynnal marchnadoedd gwneuthurwyr, dosbarthiadau awyr agored a digwyddiadau cymunedol eraill. Gellid gwneud hyn dros dro a hynny dros ardal fach i brofi'r syniad. Os yn llwyddiannus, gallai llwyfan, gorchudd awyr agored, seddi a goleuadau ddod yn gyfleuster sy'n cefnogi digwyddiadau celfyddydol a diwyllianol awyr agored yn y gerddi.

Prosiectau Tymor Hir

- Manteisio i'r eithaf ar waliau cefn adeilad yr Hen Neuadd, gan ymestyn y rhain i'w h ymgorffori yn rhan o estyniad modern i'r cefn, gan ddefnyddio ardal hanesyddol yr orendy yn y cefn. Gallai ymestyn yr adeilad gynng gofod ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau a digwyddiadau cymunedol a chreu perthynas ddymunol a mwy uniongyrchol rhwng cwrtil yr adeilad a'i erddi hanesyddol. Gallai'r gofod ychwanegol hwn hefyd ddarparu gofod dros dro neu barhaol i grwpiau cymunedol, cymdeithasau neu weithredu fel gofod arddangos ac oriel hyblyg.
- Yn y tymor hwy, byddai'r estyniad i'r adeilad a'r gofynion defnydd (wedi'u llunio'n rhannol gan randdeiliaid lleol) i'w hail-drefnu'n fewnol yn destun profion pensaernïol a dichonoldeb manylach.

Pwy

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan
- Ymddiriedolaeth Siarter
- Grwpiau Cymunedol Lleol

Ble


- Hen Neuadd
- Gerddi'r Hen Neuadd

Mae Ardal Cyfle 2 yn cyfrannu at amcanion canlynol y Weledigaeth:

- Cynnal Stryd Fawr Ddeinamig a Deniadol
- Cadw a Dathlu
- Tref Amlswyddogaethol sy'n Cynnal Poblogaeth sy'n Newid
- Lle Gwych i Bobl Ifanc Fyw, Ffynnu a Pherthyn

Mae Ardal Cyfle 2 yn cefnogi egwyddorion canlynol Siarter Creu Lleuedd Cymru:

- Pobl a Chymuned
- Hunaniaeth
- Cymysgedd o Ddefnyddiau
- Lleoliad



Ardal Cyfle 3: Safle'r Hen Farchnad Da Byw

Pam

Ers cau a dymchwel yr hen Farchnad Da Byw, mae'r safle adfeiliedig hwn wedi cael ei ddefnyddio gan ymwelwyr a phreswylwyr lleol fel maes parcio anffurfiol am ddim. Ond, ar ei ffurf bresennol, nid yw'n addas at y diben, mae'r lle i gerddwyr allu symud yn ddiogel yn gyfyngedig ac nid yw mannau parcio wedi'u diffinio sy'n arwain at ddefnydd aneffeithlon o'r safle. Mae'r safle hefyd yn dramwyfa bwysig i gerddwyr a bydd cynigion ar gyfer yr ardal hon yn helpu i wella ansawdd llwybrau cerdded, yn cynyddu gwyliadwriaeth oddefol, yn gwella cyfeirbyst ac yn creu lle yng nghanol y dref o ansawdd uchel trwy well deunyddiau a phlannu yn yr ardal gyhoeddus, i wasanaethau anghenion y gymuned leol ac ymwelwyr yn well. Mae'r prosiectau isod wedi'u dewis ar sail eu potensial i gyflawni newid sylweddol, ond byddai'r defnydd terfynol yn y dyfodol yn amodol ar ddylunio manwl pellach, asesiad dichonoldeb ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

Sut

Prosiectau Tymor Byr

- Gallai'r maes parcio barhau i weithredu fel maes parcio gyda chynllun ffurfiol a mwy effeithlon. Byddai angen asesiad pellach i ddeall anghenion parcio y Bont-faen.
- Gwell goleuadau yn yr ardal hon a allai fod yn rhan o strategaeth goleuadau ledled y dref.
- Gwell cysylltiadau i gerddwyr yn y maes parcio ac ar hyd The Butts i'r Stryd Fawr.
- Gwella/uwchraddio'r mannau parcio beiciau presennol gan gynnwys darparu lloches feiciau wrth-drosedd.
- Plannu gwelliannau i ymylon y Police Fields, megis planhigion sy'n denu peillwyr, gan gynyddu cyfleoedd ar gyfer natur a bioamrywiaeth. Gallai gynnwys nodweddion SDCau hefyd, i helpu i reoli problemau draenio lleol.

Prosiectau Tymor Canolig

- Gwelliannau sylweddol i'r ardal bresennol sy'n cael ei defnyddio fel maes parcio, gydag arwynebau gwell, mannau parcio dynodedig, tirlunio meddal a darparu mannau gwefru cerbydau trydan.
- Gyda chynllun mwy effeithlon a diffiniedig, gallai hyn alluogi adeiladau'r CADS a'r Sgowtiaid gael lle gorlifo pwrpasol wrth ymyl eu hadeiladau i wneud defnydd ohono.
- Gallai'r maes parcio diffiniedig hwn fod yn lle cynnal digwyddiadau amlswyddogaeth i fasnachwyr yn ystod marchnadoedd neu wyliau. Gallai rhan o'r lle gael ei chadw fel lle parcio, gyda'r rhan arall yn cael ei defnyddio i gynnal digwyddiadau dros dro. • Byddai llwybr cerdded a beicio gwell a ffurfiol ar hyd safle'r hen Farchnad Da Byw o The Butts i'r Police Field yn caniatáu ar gyfer llwybr mwy diogel a chllir. Gallai'r llwybrau hyn barhau ar draws Police Field i ardaloedd preswyl cyfagos.
- Gallai nifer y lleoedd parcio gael eu pennu gan strategaeth barcio ledled y dref. Gallai maes parcio gorlifo newydd arfaethedig o dan ffordd osgoi'r Bont-faen yn gwneud iawn am unrhyw le parcio sy'n cael ei golli fel rhan o'r strategaeth.

Prosiectau Tymor Hir

- Archwilio datblygiad defnydd cymysg fel rhan o waith i drawsnewid safle'r hen Farchnad Da Byw. Bydd yr ateb terfynol yn cael ei benderfynu gan astudiaethau dichonoldeb marchnad pellach ac ymgynghoriad cymunedol.
- Gan ategu'r uchod, byddai uwchraddio'r ardal gyhoeddus ar hyd The Butts, gan gynnwys ehangu troedffyrdd, gosod gwell deunyddiau a goleuadau a phlannu coed yn darparu cysylltiad gwell yn ôl i'r Stryd Fawr.

Pwy

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan
- Grwpiau Cymunedol Lleol

Ble

- Safle'r Hen Farchnad Da Byw
- The Butts
- Police Field

Mae Ardal Cyfle 3 yn cyfrannu at amcanion canlynol y Weledigaeth:

- Cynnal Stryd Fawr Ddeinamig a Deniadol
- Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud trwy'r Dref
- Cadw a Dathlu
- Tref Amlswyddogaeth sy'n Cynnal Poblogaeth sy'n Newid


Mae Ardal Cyfle 3 yn cefnogi egwyddorion canlynol y Siarter Creu Lleoedd i Gymru:

- Pobl a Chymuned
- Ardal Gyhoeddus
- Symud
- Cymysgedd o Ddefnyddiau
- Lleoliad

Opsiwn 1: Tymor Byr/Canolig – Gwella'r Ardal Gyhoeddus a'r Maes Parcio



Gallai gwelliannau i'r ardal gyhoeddus gynnwys plannu coed a phlanhigion ar y strydoedd a gosod celfi stryd fel lle dros dro ar gyfer adloniant a digwyddiadau




Cynllun Cysyniadol Safle'r Hen Farchnad Da Byw: Opsiwn 1

Opsiwn 2: Tymor Hwyr - Creu Ardal Defnydd Cymysg Newydd



Gallai ardal defnydd cymysg gyfuno lle masnachol a manwerthu gydag adloniant ac eiddo preswyl



Cynllun Cysyniadol Safle'r Hen Farchnad Da Byw: Opsiwn 2



Tai cyfoes, Timekeepers Square, Salford



Ardal gyhoeddus wedi'i gwella, gyda choed a phlanhigion wedi'u plannu ar y strydoedd, Ashington



Adloniant bwtîc, ledled y DU

Ardal Cyfle 4: Bear Field

Pam

Mae adborth gan ymgynghoriad a'r gymuned wedi tynnu sylw at yr angen i wella'r cynnig i'r rhai yn eu harddegau a phobl ifanc yng nghanol y dref. Nodir Bear Field fel Ardal Gyfle bwysig a allai ddarparu cyfleusterau gwell ar gyfer y dref, gyda ffocws penodol ar aelodau iau'r gymuned. Ar hyn o bryd, mae'n lle gwyrdd hygrych i'r cyhoedd ger y Ganolfan Hamdden sy'n cael ei ddefnyddio gan bobl ifanc i dreulio amser gyda'i gilydd. Er bod ganddo nifer o gyfleusterau megis fel rampiau sglefrio, AChA a chae pêl-droed, nid yw'n gwneud y mwyaf o'i lawn botensial gan fod rhai o'r cyfleusterau'n hen ac yn dirywio. Gallai Bear Field ddarparu gwell cyfleusterau i aelodau iau'r gymuned gymdeithasu a chadw'n heini mewn amgylchedd diogel. Bydd ail-lunio ac uwchraddio'r cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn creu lle diogel a llesol i aelodau iau'r gymuned ei ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn. Gellid gwella'r manau o amgylch y Ganolfan Hamdden hefyd trwy wella cyfleusterau parcio ar gyfer beicwyr, manau gwefru cerbydau trydan a llwybrau cerddwyr mwy diogel i gerdded i'r Stryd Fawr ac oddi yno. Byddai gwelliannau i'r llwybrau presennol o amgylch Bear Field yn hybu cysylltiadau teithio llesol mwy diogel a chyfforddus i blant, cerddwyr, olwynwyr a'r rhai ag amhariad symudedd.

- Sut**
- Prosiectau Tymor Byr
- Mae'r offer parc sglefrio presennol wedi'u hadnewyddu yn eu lleoliad presennol.
 - Atgyfnerthu plannu ar hyd y ffiniau i ddiogelu'r lle chwarae rhag y Broad Shoard.
 - Gwell cyfleusterau parcio beiciau yn y Ganolfan Hamdden a'r fynedfa yn Eagle Lane.
 - Arwyddion wrth y mynedfeydd i Bear Field i gefnogi dod o hyd i'r ffordd i'r Stryd Fawr a'r Ganolfan Hamdden.
 - Cynnwys ardaloedd chwarae naturiol.
 - Profi cau mynedfa i gerbydau ar Eagle Lane er mwyn blaenoriaethu llwybrau cerddwyr i Bear Field o'r Stryd Fawr.

- Prosiectau Tymor Canolig
- Gwneud Bear Field yn rhan o rwydwaith cysylltiedig ehangach o fannau gwyrdd yn y dref, trwy wella llwybrau ac arwyddion
 - Bydd creu troedffyrdd newydd trwy Bear Field, sy'n cysylltu Heol y Gogledd â'r Ganolfan Hamdden a'r Broad Shoard, yn cefnogi teithio llesol diogel.
 - Byddai gwell goleuadau a seddi yn gwella hygrychedd a diogelwch ar nosweithiau tywyllach.
 - Byddai cyflwyno canopi i ddarparu lloches yn ystod tywydd gwlyb yn sicrhau y gellid defnyddio'r lle trwy gydol y flwyddyn.
 - Ail-lunio defnyddiau ar Bear Field, gan gyfuno'r parc sglefrio a'r AChA yn un ardal ddynodedig.
 - Adolygu'r rampiau a'r ffensys rhwng Bear Field a'r Ganolfan Hamdden i feddalu'r cyswllt â'r ganolfan hamdden. Gallai hyn gynnwys cael gwared ar y rhwystrau metel mewnol ac arwain pobl trwy ardaloedd sydd wedi'i tirlunio'n feddal a lle mae llwyni wedi'u plannu.

- Prosiectau Tymor Hir
- Aildylunio symudiad cerddwyr o Westgate ar hyd Broad Shoard i sicrhau mwy o ddiogelwch a hygrychedd i'r rhai sydd ag amhariad symudedd. Byddai hyn yn cynnwys gwelliannau i lwybrau troed, manau croesi diogel a rhwystrau culhau'r ffordd.


- Pwy**
- Cyngor Bro Morgannwg
 - Canolfan Hamdden y Bont-faen
- Ble**
- Bear Field
 - Y Broad Shoard
 - Eagle Lane
 - Heol y Gogledd

- Mae Ardal Cyfle 4 yn cyfrannu at amcanion canlynol y Weledigaeth:
- Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud trwy'r Dref
 - Tref Amlswyddogaeth sy'n Cynnal Poblogaeth sy'n Newid
 - Lle Gwych i Bobl Ifanc Fyw, Ffynnu a Pherthyn

- Mae Ardal Cyfle 4 yn cefnogi egwyddorion canlynol y Siarter Creu Lleoedd i Gymru:
- Pobl a Chymuned
 - Ardal Gyhoeddus
 - Symud
 - Lleoliad



Gallai cyfleusterau newydd yn Bear Field gynnwys lle sefyllian dan gysgod, storio beiciau, lle chwarae a stondinau atgyweirio.



Cynllun Cysyniadol Bear Field

Ardal Cyfle 5: Stryd Fawr

Pam

Yn ogystal ag annog ymwelwyr a phreswylwyr i ymweld yn fwy aml, mae strydoedd mawr sy'n ddeniadol, yn ddiogel ac yn brysur hefyd yn denu busnes i'r gymuned. Mae hyn yn cael ei weld trwy brosiectau adfywio stryd fawr llwyddiannus mewn trefi marchnad tebyg ledled y DU ac mae astudiaeth ddiweddar o gywiro'r cydbwysedd o ran mannau parcio ceir, nifer yr ymwelwyr a chwsmeriaid (Common Misconceptions of Active Travel Investment, Sustrans 2019) yn dangos y gall y mathau hyn o newidiadau helpu i gynnal bywiogrwydd y Bont-faen yn y tymor hwy. Mae'r Ardal Gyfle hon yn dychmygu profiad wedi'i drawsnewid o'r Stryd Fawr trwy gynyddu gweithgarwch trwy gydol y dydd, hyrwyddo rhyngweithio cymunedol, cefnogi busnesau presennol a denu busnesau newydd hefyd. Bydd yr amgylchedd hwn sy'n canolbwyntio ar bobl yn creu profiad gwell i ymwelwyr a phreswylwyr ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr. Trwy brofi ymyriadau amrywiol, boed hynny'n seddi ychwanegol neu'n rhwystrau culhau'r lôn gerbydau dros dro, mae angen coridor gwell y Stryd Fawr i hyrwyddo mwy o weithgarwch ymwelwyr a dathlu treftadaeth, cymeriad ac atyniad y stryd fawr

Sut

Prosiectau Tymor Byr

- Profi tynnu rhai mannau parcio dros dro ar y stryd i ddarparu lleoedd dros dro ar gyfer eistedd.
- Gosodiadau celf gyhoeddus i ddod â lliw ac amrywiaeth i'r strydlun.
- Llwybrau ffenestri siopau i blant (codau QR neu ddelweddau wedi'u paentio ar flaenau siopau) fel rhan o brofiad ymwelwyr wedi'i guradu.
- Mwy o gymorth i fasnachwyr lleol ddod at ei gilydd a hyrwyddo'r gymuned fusnes leol. Gallai hyn fod trwy sefydlu grŵp busnes/menter ac annog mwy o gydweithredu yn ystod digwyddiadau.
- Annog economi gyda'r nos gryfach trwy farchnadoedd cyfnos, cynnyddu'r cynnig bwyd a diod, dosbarthiadau nos ac ati.
- Adnewyddu hen gelfi stryd a lleihau annibendod ar y Stryd Fawr. Hefyd gweithio gyda pherchnogion busnes lleol i adnewyddu blaenau eu siopau ac addurno eu ffenestri.
- Cyflwyno cyfleusterau parcio beiciau diogel ychwanegol dan gysgod.
- Gwell strategaeth dod o hyd i'r ffordd ac arwyddion sy'n cael ei chydlynu fel rhan o lwybr treftadaeth canol y dref, sy'n arddangos hanes adeiladau a mannau hanesyddol y dref.
- Cynnwys pyrth cyrraedd ar Eastgate, y Stryd Fawr a'r Westgate i ddathlu cyrraedd y dref ar hyd y stryd fawr, gan hyrwyddo hunaniaeth, treftadaeth a chymuned leol.

Prosiectau Tymor Canolig/Hwy

- Newid deunyddiau ar y lôn gerbydau rhwng yr Hen Neuadd a Neuadd y Dref i ddathlu nodweddion hanesyddol, gosod mesurau arafu traffig a blaenoriaethu symudiadau cerddwyr.
- Culhau'r lôn gerbydau mewn ardaloedd penodol i ganiatáu palmentydd ehangach a chyflwyno nodweddion tirlunio meddal.
- Cynnwys croesfannau diogel ar y Stryd Fawr i wella athreiddedd cerddwyr a beiciau rhwng y gogledd a'r de.
- Strategaeth barcio i leihau parcio ar y stryd a'i gydgrynhoi mewn ardaloedd y tu ôl i'r Stryd Fawr (yn amodol ar astudiaeth barcio pellach).
- Adolygu eiddo gwag ar gyfer cyfleoedd datblygu masnachol/defnydd cymysg yn y dyfodol.

Pwy

- Cyngor Bro Morgannwg
- Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan
- Busnesau ar y Stryd Fawr
- Grwpiau Cymunedol Lleol

Ble

- Y rhan o'r Stryd Fawr rhwng yr Hen Neuadd a Neuadd y Dref
- Y dref ehangach gan gynnwys Westgate i Eastgate

Mae Ardal Cyfle 5 yn cyfrannu at amcanion canlynol y Weledigaeth:

- Cynnal Stryd Fawr Ddeinamig a Deniadol
- Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud trwy'r Dref
- Cadw a Dathlu
- Tref Amlswyddogaeth sy'n Cynnal Poblogaeth sy'n Newid

Mae Ardal Cyfle 5 yn cefnogi egwyddorion canlynol y Siarter Creu Lleoedd i Gymru:

- Pobl a Chymuned
- Ardal Gyhoeddus
- Symud
- Lleoliad
- Hunaniaeth
- Cymysgedd o Ddefnyddiau



Lle gorlifo parhaol, Drury Street, Dulyn




Digwyddiad marchnad dros dro, Stryd Fawr Guildford



Gwelliannau i ddeunyddiau er mwyn arafu traffig, Preston

Prosiectau Ardal Gyhoeddus Tymor Byr



Gwell arwyddion a chyfeirbyst i'w cyflwyno ar hyd y Stryd Fawr fel rhan o strategaeth ehangach.

Lleihau nifer y lleoedd parcio dros dro er mwyn profi'r angen am ardaloedd gorlifo

Cael gwared ar annibendod stryd i wella estheteg y Stryd Fawr

Goleuadau addurnol dros dro i ddathlu cymeriad y Stryd Fawr

Gwell goleuadau stryd ar hyd y Stryd Fawr fel rhan o strategaeth goleuadau ledled y dref

Treialu blychau plannu a chelfi stryd dros dro i leihau parcio ar y stryd mewn ardaloedd penodol




Credit: CycleHoop



Dehongliad cysyniadol o ymyriadau tymor byr ar y Stryd Fawr

Gallai prosiectau tymor byr gynnwys plannu coed/planhigion a gosod seddi dros dro, addurniadau strydoedd, gwell arwyddion, a gwell cyfleusterau parcio beiciau

Prosiectau Ardaloedd Cyhoeddus Tymor Canolig - Hwy



Gosod gwell arwyddion a chyfeirbyst

Man croesi newydd i ganiatáu mwy o athreiddedd

Newid deunyddiau mewn ardaloedd cyhoeddus sy'n diffinio llai o barcio yn well ac yn blaenoriaethu cerddwyr

Cynnwys lle ychwanegol i barcio beiciau

Cynnwys blychau plannu a chelfi stryd mewn safleoedd mwy parhaol wrth i leoedd parcio gael eu lleihau

Culhau'r lôn gerbydau mewn mannau i leihau cyflymder traffig



Dehongliad cysyniadol o ymyriadau tymor canolig/hir ar y Stryd Fawr

Gallai prosiectau tymor hwy gynnwys plannu parhaol, newid deunyddiau ac ehangu llwybrau troed

Sut gallwn ni ei gyflawni?

Prosiectau Ledled y Dref

Cynnal Stryd Fawr Ddeinamig a Deniadol

- **Cynnal a Chefnogi Economi Leol Ffyniannus** – Elfen hanfodol o ran bywiogrwydd y Bont-faen yw sicrhau bod yr economi leol yn parhau i ffynnu. Gallai hyn gynnwys annog gweithgareddau gyda'r nos fel bod y dref yn aros yn fyw ar ôl 5pm. Fodd bynnag, yr unig ffordd y gall busnesau lleol ffynnu yw os yw ymwelwyr yn cael eu hannog i ddod ac os yw'r dref yn hawdd ei chyrraedd. Rhaid i'r Bont-faen sicrhau bod ymagwedd gydlynol at ardaloedd cyhoeddus a symudiad er mwyn annog aildddefnyddio mannau adfeiliedig yn ogystal â chreu mannau newydd i hyrwyddo defnyddiau dros dro.
- **Creu Cymysgedd Amrywiol o Gyfleusterau yng Nghanol y Dref** – Nodir bod gan y Bont-faen nifer o gyfleusterau gwyh. Mae angen dull cydlynol i annog y defnydd o'r mannau hyn ar gyfer rhaglen ddigwyddiadau'r dref ac er budd grwpiau cymunedol.
- **Pyrth Cyrraedd** – Mae'r Bont-faen yn lle i ddenu ymwelwyr a phreswylwyr newydd. Trwy greu ymdeimlad o gyrraedd y dref gyda chynlluniau plannu, arwyddion, neu newid deunyddiau ar briffyrdd, bydd ymwelwyr yn gwybod eu bod wedi cyrraedd y Bont-faen. I gyd-fynd â hyn, gallai pyrth cyrraedd eilaidd llai gael eu creu ar draws y dref sy'n denu ymwelwyr a phreswylwyr i archwilio ymhellach.

Lle Diogel a Chynaliadwy i Bobl Symud trwy'r Dref

- **Symudedd Cynaliadwy trwy Rwydweithiau Cerdded a Beicio Gwell** – Dylai llwybrau cerdded gael eu hategu gan well croesfannau/mesurau blaenoriaeth a lle i barcio beiciau. Bydd sicrhau bod y rwydweithiau hyn wedi'u goleuo'n dda ac yn cael y deunyddiau priodol yn hyrwyddo mwy o ddefnydd. Byddai hyn yn galluogi preswylwyr ac ymwelwyr grwydro trwy'r dref, gan fentro o Bear Field i fyny i Gastell Llanfleiddan, o'r rhandiroedd cymunedol draw i Police Field a'r tu hwnt fel rhan o gyfres o ddolenni cerdded cydlynol a chysylltiedig.
- **Hyrwyddo Coridorau Teithio Llesol** – Gyda mewnlifiad newydd o breswylwyr yn Clare Garden Village yn ogystal â'r ysgolion cyfagos ar gyrion canol y dref, dylid ystyried coridorau Teithio Llesol er mwyn galluogi preswylwyr ac ymwelwyr gael mynediad i ganol y dref ar droed, beic neu ddull llesol arall. Cafodd lleoliad y llwybrau hyn ei amlygu'n gynharach yn y Strategaeth Symud.
- **Strategaeth Parcio Ledled y Dref** – Ar y cyd ag ymyriadau amrywiol mewn ardaloedd cyhoeddus, gallai'r Bont-faen ystyried strategaeth barcio i atgyfnerthu ei mannau parcio ar gyfer ymwelwyr a phreswylwyr a hyrwyddo parcio cyrchfan yn yr Hen Farchnad Da Byw, yn Neuadd y Dref ac o dan Ffordd Osgoi'r Bont-faen. Byddai hyn yn cael ei lywio gan astudiaethau parcio pellach i ddeall y galw a'r angen. Gallai'r astudiaeth hon hefyd ehangu i gynnwys cyfleusterau parcio beiciau yn y dref er mwyn deall yn well y defnydd isel o'r cyfleusterau presennol.

- **Gwella'r Gyffordd yn Aberthin Road** - Yn ehangach y tu hwnt i ganol y dref, gellid ystyried gwelliannau i'r gyffordd yn Aberthin Road/Eastgate. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â thagfeydd ar adegau allweddol o'r dydd, ond gallai hefyd chwarae rhan mewn strategaeth teithio llesol ehangach ar gyfer y dref, gan greu llwybrau teithio diogel o Ysgol y Bont-faen i ganol y dref.
- **Arwyddion a Chyfeirbyst Cydlynol** – Er mwyn annog mwy o archwilio gan breswylwyr ac ymwelwyr, mae'n hanfodol bod strategaeth cyfeirbyst ac arwyddion cydlynol ar waith ar gyfer y Bont-faen. Bydd hyn yn galluogi preswylwyr a thwristiaid i ddod o hyd i'w ffordd trwy ddefnyddio'r llwybrau cerdded niferus o amgylch y Bont-faen sy'n cysylltu gwahanol asedau'r dref ac, ar yr un pryd, bydd yn cael gwared ar annibendod stryd.

Cadw a Dathlu

- **Tynnu Sylw at Dreftadaeth y Bont-faen** – Mae Neuadd y Dref a'r Hen Neuadd eisoes yn hyrwyddo treftadaeth y dref ond mae lle i ehangu ar hyn ac i gysylltu'n well ag atyniadau a chyfleoedd twristiaeth, celfyddydau a diwylliant ehangach. Dylid ystyried y potensial i fanteisio ar dechnoleg i ehangu apêl y dref. Trwy ddefnyddio codau QR neu apiau, gellir cynnig mwy o fewnwelediad i fwy o ymwelwyr. Gallai llwybrau hefyd fod ar themâu megis llwybrau tafarndai. Dylid ystyried sut i ddefnyddio'r rhain i annog ymwelwyr i fentro i rannau eraill o'r Bont-faen.
- **Codi Proffil y Bont-faen** – Ystyried a ellid blaenoriaethu un platfform sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer preswylwyr a busnesau lleol ac ymwelwyr. Gallai'r wefan hefyd fod yn gysylltiedig â gwefannau partner eraill megis gwefan Bro Morgannwg a gwefannau eraill ar draws y Fro. Gellid ychwanegu cynnwys i dynnu sylw at atyniadau'r dref gan gynnwys proffiliau busnesau lleol (gan gynnwys unigolion i wneud hyn yn fwy personol), teithiau cerdded lleol a llwybrau beicio. Mae gan y Bont-faen gyfle da i wella ei phroffil ymhellach fel cyrchfan i dwristiaid sy'n cysylltu ag ymgyrchoedd marchnata a chyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â Chastell Llanfleiddan ac atyniadau ymwelwyr lleol eraill.
- **Gwireddu Potensial yr Afon** – Mae Afon Ddawan yn rhywfaint o ased cudd yn y dref, yn swatio ymhlith llwybrau cerdded deiliog neu dan gysgod adeiladau ar y Stryd Fawr. Mae cyfle i greu mynediad i'r afon gan alluogi ymwelwyr a phreswylwyr i werthfawrogi'r nodwedd hon. Byddai ardaloedd seddi naturiol yn dilyn cwrs yr afon mewn lleoliadau parcdir, gan roi lle i eistedd ac ymlacio ym myd natur. Gallai'r ardal sy'n wynebu'r afon yng nghanol y dref gael ei meddalau. Mae naws arw ac wedi'i pheiriannu i'r ardal ar hyd Penny Lane ar hyn o bryd ac mae mwy o gyfleoedd plannu a bioamrywiaeth.

Tref Amlswyddogaeth, sy'n Cefnogi Poblogaeth sy'n Newid

- **Penodi Hyrwyddwyr Canol y Dref** – Nodi corff enwebedig (cyswllt/hyrwyddwr) o fewn Bro Morgannwg neu Gyngor y Dref a fyddai'n deall blaenoriaethau lleol ar gyfer y Bont-faen ac a fyddai'n eu cefnogi i fynd at swyddogion priodol o fewn adrannau allweddol ac a fyddai hefyd yn ceisio chwalu rhwystrau.
- **Mwy o Stiwardiaeth gan y Gymuned** – Annog y gymuned leol i gymryd cyfrifoldeb a stiwardiaeth dros brosiectau ac ymyriadau arfaethedig yng nghanol y dref, gan ddod at ei gilydd trwy wahanol grwpiau a chymdeithasau i weithredu newid yn amgylcheddau adeiledig a naturiol y Bont-faen. Gallai hyn gael ei gyflawni trwy fwy o gyfleoedd gwirfoddoli, gan annog pob oedran i gymryd rhan yng nghanol eu tref

Lle Gwych i Bobl Ifanc Fyw, Ffynnu a Pherthyn

- **Creu Cymysgedd Amrywiol o Gyfleusterau Canol Tref** – Yn debyg i gefnogi stryd fawr ddeinamig a ffyniannus, mae gwerth ynghlwm wrth greu amrywiaeth o ddefnyddiau a chyfleusterau i gefnogi pobl ifanc yn y Bont-faen a'i dalgylch ehangach. Mae amrywiaeth o ddefnyddiau'n darparu ar gyfer y diddordebau amrywiol sydd gan y ddemograffeg hon, boed hynny'n chwaraeon, dawns neu gelfyddydau a diwylliant. Enghraifft o'r pwynt uchod yw ehangu Tŷ Clwb Athletau'r Bont-faen sydd eisoes yn darparu lle cymunedol ychwanegol yn y dref i'w logi a thrwy greu lle ychwanegol, gallai llawer mwy o grwpiau a chymdeithasau ei ddefnyddio yn ogystal â gallu cynnal digwyddiadau mwy ac achlysuron teuluol. Mae hyn yn gallu cael ei wella ymhellach gan y cyfleoedd yn Bear Field a'r Hen Neuadd.
- **Cyfleoedd ar gyfer Gwirfoddoli** – Er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc a'r rhai yn eu harddegau ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu tref, mae cyfleoedd gwirfoddoli yn ffordd wych o gael y grŵp hwn i gymryd rhan, boed hynny'n sesiynau casglu sbwriel cymunedol, pacio bagiau mewn siopau, neu gefnogi mewn digwyddiadau a gwyliau lleol, bydd rhoi cyfrifoldeb a stiwardiaeth i'r grŵp oedran hwn dros weithgareddau yn y dref yn meithrin ymdeimlad o berthyn.

PENNOD 7

GWNEUD IDDO DDIGWYDD



Gwneud Iddo Ddigwydd

Llywodraethu a Chyflawni

Nod y Cynllun Creu Lleoedd hwn yw darparu'r modd i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor y Dref gymryd rôl strategol wrth symud ymlaen a chefnogi'r prosiectau a amlygwyd yn yr ardaloedd cyfle a'r rhai sy'n cael eu cynnal ledled y dref. Bydd hyn yn golygu cydweithio â'r sector preifat (busnesau lleol, datblygwyr) a phartneriaid lleol (grwpiau cymunedol a sefydliadau) i bennu cynlluniau cyflawni manwl ar gyfer pob prosiect arfaethedig.

Cyflwyno fesul cam

Mae'r ardaloedd cyfle a phrosiectau ledled y dref a nodwyd ym Mhennod 6 yn amrywio o brosiectau y gellir eu symud ymlaen ar unwaith i ddyheadau tymor hir a fydd angen asesiad dichonoldeb a chyllid cyn y gellir eu cyflawni. Mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn nodi 5 maes cyfle allweddol sy'n cefnogi'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer y Bont-faen:

- Sgwâr Neuadd y Dref
- Yr Hen Neuadd a Gerddi'r Hen Neuadd
- Safle'r Hen Farchnad Da Byw
- Bear Field
- Y Stryd Fawr

Mae Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor y Dref yn gobeithio mynd ar drywydd nifer o'r camau gweithredu a nodwyd, fel newidiadau sy'n cael canlyniadau cyflym, gan gydnabod pwysigrwydd adeiladu momentwm. Mae cyfleoedd blaenoriaeth wedi'u nodi trwy ymgynghori â'r cyhoedd. Yn fras, byddai cyflwyno prosiectau canol tref a ledled y dref fesul cam yn cael ei gyflawni ar draws amserlenni tymor byr (1-3 blynedd), tymor canolig (5 mlynedd) a thymor hwy (10 mlynedd).

Sicrhau Llwyddiant

Bydd angen i Gyngor y Dref a Chyngor Bro Morgannwg, ynghyd â phartneriaid cyflawni, benderfynu ar gynllun gweithredu manwl. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r cyllid sydd ar gael, neu'r cymorth sydd ar gael, i'w gyflawni'n llwyddiannus.

Mae'n bwysig cydnabod nad yw'r rhaglen ddangosol hon yn sefydlog ac os nodir ffynonellau cyllid penodol, dylid addasu'r rhaglen i ymateb i'r cyfle. Dylai partneriaid cyflawni groesawu'r cyfle i brofi dulliau newydd. Er enghraifft, tynnu parcio dros dro, i fesur a fyddai lleihau mynediad i geir i annog symudiad cerddwyr neu i ddarparu lle bwyta awyr agored o fudd i'r Stryd Fawr. Dylid parhau â'r dull hwn fel y gellir profi mwy o atebion dros dro i benderfynu a oes angen ateb mwy parhaol neu'n ddymunol, yn hytrach na dylunio prosiect ardal gyhoeddus yn fanwl a dod o hyd i adnodd sylweddol i'w gyflawni. Mae newidiadau'n llawer mwy tebygol o gael eu derbyn gan fusnesau a'u cefnogi gan breswylwyr lleol os ydynt yn gwybod bod syniadau'n cael eu profi a'u monitro ac, os nad ydynt yn gweithio, y gellir dod o hyd i ddewisiadau amgen.

Cyfleoedd Ariannu

Gallai ffynonellau cyllid posibl i gefnogi cyflawni'r prosiectau Cynllun Creu Lleoedd gynnwys:

- **Cyllid Trawsnewid Trefi** – Mae'r cyllid hwn ar gael i awdurdodau lleol sy'n gallu gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu prosiectau.
- **Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU** – Rhaglen gyllid sy'n darparu £2.6 biliwn o gyllid newydd ar gyfer buddsoddiad lleol erbyn mis Mawrth 2025, gyda phob rhan o'r DU yn derbyn dyraniad gan y Gronfa drwy fformiwla ariannu yn hytrach na chystadleuaeth.
- **Cronfa Teithio Llesol** – Mae'r gronfa hon yn darparu £5 miliwn ledled Cymru i gefnogi prosiectau sy'n annog pobl i ddewis patrymau teithio llesol.
- **Y Sector Preifat** – Gweithio gyda thirfeddianwyr lleol i'w hannog i gyflwyno eu safleoedd neu ddatblygwyr lleol sy'n gweithio gyda busnesau lleol i'w hannog i ddarparu gwerth cymdeithasol ac annog arbenigwyr lleol i ychwanegu gwerth, er enghraifft o ran marchnata a thirlunio
- **Partneriaid Sector Cyhoeddus** – Annog partneriaid cyhoeddus i fuddsoddi eu cyllidebau yn yr ardal. • Arian A106 o ddatblygiadau newydd.
- **Cronfeydd Cymunedol** – Mae nifer o gronfeydd cyllido ar gael y gall grwpiau cymunedol wneud cais amdanynt.
- **Ffrydiau Cyllido Newydd** – Mae'r Cynllun Creu Lleoedd wedi'i baratoi i fod yn hyblyg fel y gellir addasu prosiectau i ymateb i ffynonellau cyllido newydd y gallai'r llywodraeth bresennol neu lywodraeth newydd ystyried eu cyflwyno.

Yn bwysig, bydd y Cynllun Creu Lleoedd yn llwyfan i gefnogi ceisiadau cyllido gan bartneriaid cyhoeddus a grwpiau cymunedol. Rhaid cydnabod na ellir disgwyl i Gyngor Bro Morgannwg arwain ac ariannu'r holl brosiectau a nodwyd yn y Cynllun Creu Lleoedd yn y cyfnod presennol o doriadau gwariant yn y sector cyhoeddus. Bydd y defnydd gorau'n cael ei wneud o fuddsoddiad yn y Bont-faen yn y dyfodol lle mae partneriaid cyhoeddus a phreifat yn dod at ei gilydd â'r gymuned leol i gael gafael ar y cyllid sydd ar gael a harneisio talent ac adnoddau lleol.

Gwneud Iddo Ddigwydd

Cynllun Gweithredu'r Prosiect

Mae'r tabl canlynol yn rhoi mwy o fanylion am y prosiectau sy'n ffurfio cynigion Cynllun Creu Lleoedd y Bont-faen. Bydd angen cydweithio pellach ar y prosiectau a nodwyd rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor y Dref yn ogystal â thrafodaethau â'r gymuned leol, busnesau a rhanddeiliaid i brofi bod modd eu cyflawni. Dylid nodi hefyd y bydd y Cyngor yn cefnogi'r gymuned leol a busnesau lleol lle bo hynny'n bosibl i fwrw ymlaen â'r prosiectau hyn.

Cyflawni a gweithredu	Ardal Cyfle	Prosiect	Cost	Partneriaid cyflawni posibl	Cyfleoedd ariannu posibl
Byrdymor	Neuadd y Dref	• Darparu mannau arddangos, gweithio a digwyddiadau hyblyg	Isel	• VoGC • Cyngor y Dref • Grwpiau cymunedol • Busnesau lleol • Grwpiau gwirfoddol	• Cyllideb sylfaenol y Cyngor • S106 • Cyllid strwythurol yn y dyfodol • Cronfa'r Loteri • Cronfa Trawsnewid Trefi • Welsh Government grants • Grantiau Llywodraeth y DU • Grant trosglwyddo asedau • Grant cyfleusterau cymunedol • Cyllid sbarduno ymddiriedolaeth siarter
		• Gwelliannau mewnol fel paentio ac addurno ac arwyddion	Isel		
Tymor Canolig		• Uwchraddio seddi a chelfi stryd o amgylch Neuadd y Dref	Canolig		
		• Gwell goleuadau i flaen Neuadd y Dref	Canolig		
		• Archwilio cysyniadau i ail-ffurfweddu symudiad o amgylch Sgwâr Neuadd y Dref	Canolig		
		• Creu gofod dinesig awyr agored i ganiatáu dathliadau cymunedol ac amser i oedi - gallai hyn gynnwys gwelliannau i gyfleusterau toiledau lleol	Canolig / Uchel		
		• cynnwys amserlenni bysiau digidol a gwelliannau i gysgodfan y safle bws yng nghefn Neuadd y Dref	Canolig / Uchel		
		• Llogi beiciau fel rhan o'r gofod dinesig awyr agored	Canolig		
		• cynnwys peiriant ATM	Canolig		
		• Gwell arwyddion a dynodi llwybrau fel rhan o strategaeth Canol Tref ehangach.	Canolig		
		Hirdymor	• Ailwampio'r ardal gyhoeddus o amgylch Neuadd y Dref		
• Adolygu ac ail-drefnu cyffyrdd i'r Stryd Fawr			Uchel		
Byrdymor	Yr Hen Neuadd	• Adeiladu mwy o bresenoldeb a hyrwyddo digwyddiadau	Isel	• VoGC • Cyngor y Dref • Rhanddeiliaid lleol • Grwpiau cymunedol • Ymddiriedolaethau siarter • Grwpiau gwirfoddol	• Cyllideb sylfaenol y Cyngor • S106 • Cyllid strwythurol yn y dyfodol • Cronfa'r Loteri • Cronfa Dreftadaeth y Loteri • Cronfa Trawsnewid Trefi • Grantiau Llywodraeth Cymru • Grantiau Llywodraeth y DU • Grant trosglwyddo asedau • Grant cyfleusterau cymunedol • Cyllid sbarduno ymddiriedolaeth siarter
		• Creu oriel a gofod arddangos mewn ystafelloedd segur yn yr adeilad i gefnogi pobl greadigol yn y gymuned.	Isel		
		• Estyn allan yn ehangach at grwpiau cymunedol i gynnig lle ar gyfer digwyddiadau er enghraifft, gweithio gyda CADS	Isel		
		• Arwyddion a dynodi llwybrau o'r Stryd Fawr trwy'r Hen Neuadd ac ymlaen i Erddi'r Hen Neuadd.	Isel		
Tymor Canolig		• Gwella lleoliad yr adeilad yn y cefn, gan annog pobl i oedi yn yr ardal	Canolig		
		• Gan weithio ar y cyd â'r llyfrgell, gallai'r ddau adeilad greu gofod awyr agored penodedig yn y gerddi	Canolig		
Hirdymor		• Estyniad wedi'i adeiladu i gefn yr Hen Neuadd i ddarparu lle ychwanegol ar gyfer dosbarthiadau a digwyddiadau cymunedol	Uchel		

Gwneud Iddo Ddigwydd

Cyflawni a gweithredu	Ardal Cyfle	Prosiect	Cost	Partneriaid cyflawni posibl	Cyfleoedd ariannu posibl
Byrdymor	Bear Field	• Atgyfnerthu plannu ar hyd y ffiniau Bear Field i warchod yr ardal chwarae oddi wrth The Broad Shoard.	Canolig	- VoGC - Canolfan Hamdden - Grwpiau cymunedol - Grwpiau gwirfoddol - Ysgolion Lleol	- Cyllideb sylfaenol y Cyngor - S106 - Cyllid strwythurol yn y dyfodol - Chwaraeon Cymru - Grantiau Llywodraeth Cymru - Grantiau Llywodraeth y DU
		• Gwell mynedfeydd i Bear Field o North Road	Isel		
		• Gwella parcio i feiciau	Isel		
		• Cynnwys ardaloedd chwarae naturiol	Isel		
		• Profi cau Eagle Lane i gerbydau er mwyn blaenoriaethu llwybrau cerddwyr i Bear Field o'r Stryd Fawr	Isel		
Tymor Canolig		• Arwyddion i gefnogi canfod ffordd i'r Stryd Fawr	Canolig		
		• Gwneud Bear Field yn rhan o rwydwaith cysylltiedig, ehangach o fannau gwyrdd yn y dref trwy strategaeth canfod ffordd gydlynus	Isel		
		• Creu troedffyrdd newydd trwy Bear Field i gysylltu North Road â'r Ganolfan Hamdden a'r Broad Shoard	Canolig		
		• Gwell goleuadau a seddi	Canolig		
Hirdymor		• Ail-ffurfweddu defnydd ar Bear Field. Cyfuno'r parc sglefrio a'r Ardal Chwaraeon Amldeffnydd yn un ardal ddynodedig	Canolig		
		• Adolygu'r rampiau a'r ffensys rhwng Bear Field a'r Ganolfan Hamdden i deimlo'n llai amlwg	Canolig / Uchel		
		• Ailddylunio ffordd cerddwyr o Westgate ar hyd Broad Shoard	Uchel		
Byrdymor	Safle'r hen farchnad da byw	• Annog parcio effeithlon drwy ddiffinio baeau parcio	Isel	- VoGC - Cyngor y Dref - CADS - Clwb Sgowtiaid - Grwpiau cymunedol - Grwpiau gwirfoddol - Datblygwyr preifat	- Cyllideb sylfaenol y Cyngor - S106 - Cyllid strwythurol yn y dyfodol - Cronfa Trawsnewid Trefi - Preifat / annibynnol - Grantiau Llywodraeth Cymru - Grantiau Llywodraeth y DU
		• Gwelliannau plannu naturiol i Police Fields i gynyddu bioamrywiaeth	Isel		
Tymor Canolig		• Mwy o ailwampio ar y maes parcio, gydag arwynebau gwell, baeau dynodedig a gwefru cerbydau trydan	Canolig / Uchel		
		• Gofod allanol / awyr agored ar gyfer CADs a Chlwb y Sgowtiaid	Isel		
		• Byddai gwella'r llwybr ar hyd hen safle'r Marchnad Da Byw o The Butts i Police Fields yn creu llwybr mwy diogel a wedi'i ddiffinio'n well	Canolig		
		• Cynnwys plannu, nodweddion SDCau ac ymylon â phlannu gwell i Police Fields	Canolig		
		• Datblygiad defnydd cymysg i ategu craidd y dref gan gefnogi bywiogrwydd lleol	Uchel		
Hirdymor		• Uwchraddio'r ardal gyhoeddus ar hyd The Butts	Uchel		

Gwneud Iddo Ddigwydd

Cyflawni a gweithredu	Ardal Cyfle	Prosiect	Cost	Partneriaid cyflawni posibl	Cyfleoedd ariannu posibl
Byrdymor	Y Stryd Fawr	• Digwyddiadau celf gyhoeddus i fywiogi'r strydlun	Isel / Canolig	• VoGC • Cyngor y Dref • Busnesau lleol • Grwpiau celf cymunedol • Grwpiau cymunedol • Grwpiau gwirfoddol • Rhanddeiliaid lleol • Ysgolion lleol	• Cyllideb sylfaenol y Cyngor • S106 • Cyllid strwythurol yn y dyfodol • Cronfa Trawsnewid Trefi • Grantiau Llywodraeth Cymru • Grantiau Llywodraeth y DU
		• Ymdrech gydgyssylltiedig gan fusnesau a chymunedau lleol i symleiddio'r stryd fawr a ffreshau blaenau siopau	Isel		
		• Cyflwyno seddi a phlannu dros dro i siapio'r strydlun a phrofi awydd am fwy o le i oedi am ychydig	Isel		
		• Dylid bwrw ymlaen gydag astudiaeth ddylunio gysyniadol, gan weithio gyda busnesau i ddatblygu strategaeth fesul cam wedi ei chostio ar gyfer gwelliannau i'r Stryd Fawr megis culhau lleol ar y lôn gerbydau, croesfannau newydd a gwell, a dodrefn stryd	Canolig / Uchel		
Tymor Canolig		• Gwell strategaeth canfod ffordd ac arwyddion sy'n ategu cymeriad hanesyddol y Bont-faen	Isel / Canolig		
		• Cynnwys pyrth / pwyntiau cyrraedd ar Eastgate, y Stryd Fawr a'r Westgate	Canolig		
		• Culhau'r lôn gerbydau yn lleol i ganiatáu palmentydd lletach	Canolig / Uchel		
		• Darparu croesfannau diogel ar y Stryd Fawr i wella athreiddedd rhwng y gogledd a'r de.	Canolig		
		• Strategaeth barcio i leihau parcio ar y stryd a'i grynhoi i ardaloedd y tu ôl i'r Stryd Fawr	Isel / Canolig		
Hirdymor		• Newid o ran deunyddiau rhwng yr Hen Neuadd a Neuadd y Dref sy'n arwyddo newid i symudiad cerbydau a blaenoriaethu cerddwyr	Uchel		

Gwneud Iddo Ddigwydd

Prosiectau ledled y dref

Cyflawni a gweithredu	Prosiect	Cost	Partneriaid cyflawni posibl	Cyfleoedd ariannu posibl
Byrdymor	• Codi proffil y Bont-faen drwy sianeli ar-lein ac all-lein	Isel	• VoGC • Cyngor y Dref • Ymddiriedolaethau siarter • Grwpiau cymunedol • Busnesau lleol • Rhanddeiliaid lleol • Grwpiau gwirfoddol • Ysgolion lleol • Y gymuned leol • Datblygwyr preifat	• Cyllideb sylfaenol y Cyngor • S106 • Cyllid strwythurol yn y dyfodol • Cronfa'r Loteri • Cronfa Dreftadaeth y Loteri • Cronfa Trawsnewid Trefi • Grantiau Llywodraeth Cymru • Grantiau Llywodraeth y DU • Grant trosglwyddo asedau • Grant cyfleusterau cymunedol • Cyllid sbarduno ymddiriedolaeth siarter • Preifat / annibynnol
	• Penodi pencampwyr canol tref	Isel		
Tymor Canolig	• Integreiddio llwybrau cerdded a beicio lleol / teithio llesol	Isel		
	• Symudedd cynaliadwy trwy rwydweithiau cerdded a beicio gwell	Canolig		
	• Arwyddion cydlynol a dynodi llwybrau	Canolig		
	• Creu maes parcio gorlif o dan ffordd osgoi y Bont-faen - gallai fod yn anffurfiol yn y tymor canolig ond yn fwy diffiniedig wedi ei gynllunio yn y tymor hwy os yw'n llwyddiannus	Canolig / Uchel		
	• Pyrth pwyntiau cyrraedd	Canolig		
Hirdymor	• Creu a chynnal economi leol ffyniannus	Canolig / Uchel		
	• Agor at glan yr afon	Isel / Canolig		
	• Arallgyfeirio'r cymysgedd o gyfleusterau canol tref	Canolig		
	• Agor at Afon Ddawan	Canolig / Uchel		
	• Gwelliannau i'r gyffordd yn Aberthin Road	Uchel		

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r prosiectau prawf posibl ac astudiaethau pellach y gellid eu cynnal i gefnogi llawer o'r hyn a restrwyd uchod. Bydd angen cydweithio pellach ar y prosiectau a nodwyd rhwng Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor y Dref yn ogystal â thrafodaethau â thrydydd partïon er mwyn gallu cyflawni.

Prosiectau Prawf ac Astudiaethau Pellach	Cost	Partneriaid cyflawni posibl	Cyfleoedd ariannu posibl
Ailgynllunio arbrofol i'r llwybr unfordd o amgylch Neuadd y Dref	Isel / Canolig	• VoGC • Cyngor y Dref • Ymddiriedolaethau siarter • Grwpiau cymunedol • Busnesau lleol • Rhanddeiliaid lleol • Grwpiau gwirfoddol • Ysgolion lleol • Y gymuned leol • Datblygwyr preifat	• Cyllideb sylfaenol y Cyngor • S106
Dyluniadau cysyniadol i ailgynllunio'r ardal yn y derfynfa fysiau	Canolig		
Profi cau mynedfa i gerbydau ar Eagle Lane i flaenoriaethu llwybrau cerddwyr i Bear Field o'r Stryd Fawr.	Isel		
Astudiaeth parcio ledled y dref i ddeall defnydd ac argaeledd mannau parcio presennol a llywio strategaeth parcio ledled y dref	Canolig		
Cyflwyno seddi a phlannu dros dro i siapiau'r strydlun a phrofi awydd am fwy o le i oedi ychydig	Isel		
Dylid bwrw ymlaen ag Astudiaeth Ddylunio Gysyniadol, gan weithio gyda busnesau i ddatblygu strategaeth fesul cam wedi ei chostio ar gyfer gwelliannau i'r Stryd Fawr	Canolig / Uchel		

Atodiad A

Crynodeb: Gweithgareddau Ymgysylltu All-lein ar gyfer Creu Lleoedd yn y Bont-faen

Dechreuodd gweithgareddau Creu Lleoedd yn y Bont-faen ym mis Ionawr 2023 pan gyfarfu Swyddogion Cyngor Bro Morgannwg (CBM) ag Aelodau Etholedig a Swyddogion o Gyngor Tref y Bont-faen a Llanfleiddan, ynghyd â rhanddeiliaid allweddol a nodwyd gan y Cyngor Tref, lle esboniwyd y broses Creu Lleoedd ac amcanion y cynllun i'r rhai a oedd yn bresennol.

Ar ôl cyfnod o gynllunio a datblygu, cynhaliwyd y gweithgaredd ymgysylltu cyhoeddus cyntaf yn y Bont-faen yn ystod Picnic y Coroni a gynhaliwyd yn Bear Field yn y Bont-faen ar yr 2ail o Fai 2023. Hwn oedd dechrau'r gweithgareddau 'ar lawr gwlad' sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

Ochr yn ochr â'r gweithgareddau cyhoeddus, mae Swyddogion CBM ac Aelodau'r Cyngor Tref wedi parhau i gyfarfod yn wythnosol i fonitro cynnydd a chynllunio gweithgareddau Creu Lleoedd. Mae cyfarfodydd deufisol Gweithgor Creu Lleoedd Cyngor y Dref hefyd yn parhau i gael eu cynnal. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys aelodau etholedig o'r Cyngor Tref a Swyddogion CBM yn bennaf, ond mae rhanddeiliaid eraill o'r gymuned leol hefyd yn mynychu cyfarfodydd yn achlysurol.

Fel y byddid yn ei ddisgwyl, roedd rhai o'r gweithgareddau ymgysylltu a restrir yn y tabl uchod yn fwy llwyddiannus nag eraill o ran codi ymwybyddiaeth o ddibenion Creu Lleoedd, ac o ran clywed barn trigolion am eu blaenoriaethau ar gyfer y dref yn y dyfodol agos a chanolig.

Gellir crynhoi'r themâu a ddaeth i'r amlwg yn ystod y gweithgareddau a gynhaliwyd fel a ganlyn:

Cysylltedd

- Defnyddioldeb, arwyddion a chynnal a chadw llwybrau troed
- Awydd am lwybrau beicio diogel, heb draffig
- Awydd am lwybrau diogel i gerddwyr, yng nghanol y dref ac yn cysylltu â chymunedau cyfagos
- Llwybrau teithio llesol i bobl ifanc – ar gyfer hamdden ac i deithio i'r ysgol ac oddi yno
- Opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus – ffocws ar annibynadwyedd gwasanaethau

Dyddiad a Lleoliad	Math o Weithgaredd	Disgrifiad Cryno
02/05/23 Bear Field	Ymgysylltu â thrigolion ym Mhicnic y Coroni gan ddefnyddio map	Cyflwynwyd y cysyniad Creu Lleoedd i'r ddemograffeg eang o drigolion a fynychodd y digwyddiad trwy ofyn iddynt roi sticeri siâp calon ar fap o'r dref i ddangos pa leoedd y maen nhw'n eu gwerthfawrogi ac wrth eu bodd yn treulio amser ynddynt. Defnyddiwyd slipiau sylwadau hefyd i gael awgrymiadau ar gyfer gwelliannau/manylion pellach. Cofnodwyd tua 150 o ymatebion.
01/07/23 Neuadd y Dref	Gweithdy yn ystod Bore Coffi'r Maer	Gwahoddwyd y trigolion a fynychodd y digwyddiad i ffurfio grwpiau wrth y byrddau a llenwi 'Gridiau Creu Lleoedd' gan ddefnyddio tair o'r themâu Creu Lleoedd i greu tabl Bylchau ac Asedau ar gyfer y dref. Ymgysylltwyd â thua 40 o bobl.
06/07/23 Ysgol Gyfun y Bont-faen	Sesiwn i godi ymwybyddiaeth o Greu Lleoedd gan Faer y Dref i'r Cyngor Ysgol	Cymerodd 15 o ddisgyblion ran. Ni chasglwyd adborth gan mai sesiwn codi ymwybyddiaeth yn unig oedd hon.
13/09/23 Tafarn y Duke of Wellington	Gweithdy ar gyfer perchnogion busnes/masnachwyr	Gofynnwyd i'r mynychwyr ffurfio grwpiau wrth y byrddau a chreu tabl Bylchau ac Asedau yn gysylltiedig â rhedeg busnes yn y dref. Gofynnwyd i'r mynychwyr hefyd gwblhau'r ymarfer eto ar wahân fel trigolion y dref. Rhoddwyd gwybodaeth am Grantiau Busnes a chanolfan fancio lleol peilot i'r mynychwyr hefyd. Ymgysylltwyd â thua 25 o bobl [sylwer: roedd hyn yn siomedig o ystyried y gwaith a wnaed gan y Cyngor Tref i hyrwyddo'r digwyddiad i'r gymuned fusnes leol]
10/10/23 Ysgol Gyfun y Bont-faen	Sesiwn codi ymwybyddiaeth o Greu Lleoedd a gweithdy gyda disgyblion Blwyddyn 7	Cyflwyniad anffurfiol i Greu Lleoedd ynghyd ag ymarfer taflen sylwadau. Ymgysylltwyd â 60 o ddisgyblion.
14/11/23 Neuadd y Dref	Cyfarfod ag Aelodau o Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen	Cyflwyniad i amcanion Creu Lleoedd gan Swyddogion CBM ynghyd â chais am fewnbwn. Cyflwyniad ysgrifenedig wedi'i gynnig a'i dderbyn Ionawr 24.
15/01/24 Cross Inn (ar y gyffordd rhwng CGV a'r ffordd i Lanfledlian)	Sesiwn galw heibio i drigolion Clare Garden Village a Llanfleiddan	Gwahoddwyd trigolion i lenwi holiaduron byr yn canolbwyntio ar sut maen nhw'n teithio rhwng eu cartrefi a chyfleusterau lleol, ac i drigolion CGV, a oeddent yn teimlo eu bod yn drigolion y Bont-faen. Ymgysylltwyd â thua 60 o bobl.
22/01/24 Neuadd y Dref	Gweithdy gyda disgyblion BI 3-6 o Ysgol Gynradd y Bont-faen	Ymgwymerodd y disgyblion ag ymarfer mapio a holiadur hoff bethau a chas bethau. Cymerodd tua 25 o ddisgyblion ran.
02/02/24 Cyntedd Waitrose	Ymgysylltu â siopwyr (trigolion ac ymwelwyr)	Gwahoddwyd siopwyr i roi sticeri 'hoffi' a 'drwghoffi' ar fap o'r Bont-faen ac i bleidleisio ar ba un o'r 3 thema oedd yn bwysicaf iddynt – cysylltedd, cyfleusterau i bobl ifanc neu gyfleusterau diwylliannol a hamdden. Ymgysylltwyd â thua 80 o bobl.

Crynodeb: Gweithgareddau Ymgysylltu All-lein ar gyfer Creu Lleuedd yn y Bont-faen

- Signal ffôn symudol gwael
- Cyflymder band eang gwael
- Adroddwyd am lefelau uchel o gerdded rhwng lleoliadau – e.e. o Lanfleiddan a Clare Garden Village i ganol y dref yn ogystal â cherdded hamddenol ar lwybrau troed lleol. Mae’n amlwg bod opsiynau cerdded yn bwysig i drigolion.

Cyfleusterau i Bobl Ifanc

- Mae ymatebwyr hŷn yn aml yn nodi bod yna ddiffyg cyfleusterau i bobl ifanc – gyda ffocws arbennig ar weithgareddau/cyfleusterau i arddegwyr hŷn
- Ymatebwyr hŷn dro ar ôl tro yn galw am ddod â'r Clwb Ieuenctid yn ôl. Nid yw'r ymateb hwn mor amlwg ymhlith ymatebwyr iau.
- Mae ymatebwyr hŷn yn nodi mwy o foddhad â chyfleusterau fel ardaloedd chwarae i bobl ifanc oedran cynradd.
- Agweddau cymysg ynghylch darparu parc sglefrio newydd / uwchraddio'r parc sglefrio presennol.
- Mae ymatebwyr hŷn yn dweud bod angen iddynt deithio i gymunedau cyfagos fel Llanilltud Fawr i gael mynediad at weithgareddau a chyfleusterau chwaraeon i blant / wyrion
- Mae ymatebwyr o CGV yn gadarnhaol ynghylch adleoli ysgol cyfrwng Cymraeg lolo Morgannwg i safle newydd o fewn y datblygiad.

Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

- Pwyslais uchel ar werth mannau gwyrdd yn y dref a'r cyffiniau ar gyfer llesiant / hamdden. Mae'r lleoliad gwledig / mynediad i fannau gwyrdd yn aml yn cael ei nodi fel rheswm dros symud i'r dref.
- Llawer o sôn am deithio llesol a hamddenol trwy fannau gwyrdd

Dyddiad a Lleoliad	Math o Weithgaredd	Disgrifiad Cryno
26/02/24 Tafarn y Duke of Wellington	Sesiwn galw heibio i drigolion	Y gobaith oedd y byddai trigolion yn ymateb i'r gwahoddiad a anfonwyd i holl drigolion y Bont-faen i fynychu'r sesiwn galw heibio a dweud eu dweud. Yn anffodus, ymgysylltwyd â llai na 5 o bobl yn ystod noson.
04/03/24 Tafarn y Duke of Wellington	Sesiwn galw heibio i drigolion	Yr ail o'r tri dyddiad a hyrwyddwyd. Roedd yr ymgysylltu'n well ar y dyddiad hwn, yn enwedig gyda thrigolion o'r cyfleuster Byw'n Annibynnol lleol. Cwblhawyd holiaduron. Ymgysylltwyd â thua 20 o drigolion.
05/03/24 Llanddunwyd (pentref cyfagos)	Ymgysylltu â Chyngor Cymuned	Anerchodd y Cyngorydd Malcolm Wilson Gyfarfod y Cyngor Cymuned a rhoddodd gwybod i'r aelodau am yr arolwg ar-lein.
11/03/24 Farmers Arms, Aberthin (pentref cyfagos)	Sesiwn galw heibio wedi'i hanelu at drigolion pentref Aberthin	Y trydydd o'r tri dyddiad a hyrwyddwyd. Yn anffodus, ymgysylltwyd â llai na 5 o bobl.
13/03/24 a 20/03/24 Llyfrgell y Bont-faen	Ymgysylltu â mynychwyr sesiynau Plant Bach a Gwau	Hyrwyddo'r arolwg ar-lein
22/03/2024 Canolfan Hamdden y Bont-faen	Ymgysylltu â thrigolion a oedd yn defnyddio cyfleusterau'r Ganolfan Hamdden	Hyrwyddo'r arolwg ar-lein
22/03/24 Archfarchnad Filco yn y Bont-faen	Ymgysylltu â siopwyr	Hyrwyddo'r arolwg ar-lein a'r ymarfer mapio. Ymgysylltwyd â thua 40-50 o drigolion.
08/04/24 Hen Neuadd y Bont-faen	Cwrdd â disgyblion BI 12 o Ysgol Gyfun y Bont-faen	Gwneud cysylltiad mewn ymgais i ymgynghori'n ehangach â'r grŵp oedran hwn.
25/04/24 Tafarn yr Horse & Groom, y Bont-faen	Grŵp ffocws gyda manwerthwyr/busnesau bwyd a diod	Grŵp rhanddeiliaid allweddol
29/04/24 Ysgol lolo Morgannwg	Gweithdy gyda disgyblion o'r ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg	Coladu adborth gan ddisgyblion oedran cynradd ar sut maen nhw'n defnyddio'r mannau cyhoeddus yn y dref
20/06/24	Cyfarfod ag Ymddiriedolaeth Siarter y Bont-faen	Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol
23/09/24 – am bythefnos	Pythefnos o sesiynau ymgysylltu amser cinio gyda disgyblion Ysgol Gyfun y Bont-faen	BI 7-13 – Grŵp rhanddeiliaid allweddol – gyda phwyslais arbennig ar gyfleusterau adloniant Bear Field

Crynodeb: Gweithgareddau Ymgysylltu All-lein ar gyfer Creu Lleoedd yn y Bont-faen

- Mae'r Ardd Berlysiau yn aml yn cael ei nodi fel gofod o werth mawr i drigolion.
- Rhoddwyd llai o bwyslais ar werth nodweddion hanesyddol gan drigolion nag y rhagdybiwyd. Mae'n ymddangos bod trigolion yn gwerthfawrogi cymeriad unigryw'r dref heb dynnu sylw at nodweddion hanesyddol / diwylliannol penodol.
- Y broblem fwyaf amlwg gyda seilwaith y dref yw arwyneb maes parcio'r Butts ar safle'r hen Farchnad Wartheg.

Economi Fusnes Leol / Gwasanaethau a Chyfleusterau Cyhoeddus

- Ffocws ar annigonolrwydd y ddarpariaeth iechyd leol – meddygfeydd / gwasanaethau gofal.
- Nodwyd lefel uchel o anfonlonrwydd gyda chyfleusterau ar gyfer ymarfer corff – gofynnwyd am welliannau i'r cyfleusterau a ddarperir gan y Ganolfan Hamdden. Nifer o geisiadau am bwl nofio, a hynny gan ymatebwyr hŷn ac iau.
- Rhoddir gwerth uchel ar yr ystod o siopau annibynnol.
- Byddai ymatebwyr iau yn gwerthfawrogi siopau mwy amrywiol, gan gynnwys opsiynau rhatach.
- Mae ymatebwyr iau a hŷn yn nodi eu bod yn siopa mewn archfarchnadoedd y tu allan i'r dref oherwydd y gost sy'n gysylltiedig â'r ddwy archfarchnad yn y dref.
- Mae ymatebwyr yn nodi pryder ynghylch y bwytai a chaffis sydd wedi cau yn ddiweddar. Credir bod cynnig lletygarwch y dref wedi dirywio ar ôl Covid.

Dyddiad a Lleoliad	Math o Weithgaredd	Disgrifiad Cryno
22/10/24	Grŵp Masnachwyr y Bont-faen	Trafodaeth am y camau nesaf i fasnachwyr – posibilrwydd o ffurfio Grŵp Masnachwyr ffurfiol
14/11/24	Clwb Athletau'r Bont-faen	Gan gyfeirio at eu cynlluniau datblygu
25/11/24	Grŵp Sgowtiaid y Bont-faen	Gan gyfeirio at ardal y Farchnad Wartheg
9/12/24	Ymddiriedolaeth Syr Thomas Mansel Franklen ac Ysgol y Bont-faen	Gan gyfeirio at ardal y Farchnad Wartheg a'r hen gae criced

Cynllun Creu Lleoedd Drafft - Ymgynghori â'r Cyhoedd		
21/10/24	Sesiwn galw heibio yn yr Hen Neuadd i weld y cynigion yn y cynllun creu lleoedd drafft	Ymddiriedolaeth Siarter, Cymdeithas Hanes, gwirfoddolwyr Gerddi'r Hen Neuadd, Ymddiriedolaeth Syr Thomas Mansel Franklen ac Ysgol y Bont-faen
24/10/24	Cyfarfod gyda'r nos gyda chynrychiolwyr o CADS i weld y cynigion yn y cynllun creu lleoedd drafft	Aelodau o CADS
25/10/24	Cyfarfod â chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned i weld y cynigion yn y cynllun creu lleoedd drafft	Cynghorau Cymuned Pen-llin, Llanddunwyd, a Llanfair
30/10/24	Cyfarfod â Legacy Leisure yn y Ganolfan Hamdden i weld y cynigion yn y cynllun creu lleoedd drafft	Legacy Leisure
31/10/24	Cyfarfod gyda'r hwyr gyda'r Sgowtiaid i weld y cynigion yn y cynllun creu lleoedd drafft	Sgowtiaid y Bont-faen
7/11/24 – 15/11/24	Sesiynau galw heibio bob dydd (diwrnod cyntaf yn Neuadd y Dref, yna yn yr Hen Neuadd) Arddangosfa o baneli gwybodaeth	Aelodau'r cyhoedd

Atodiad B

Cyd-destun y Polisi Cynllunio

Mae nifer o gynlluniau a strategaethau presennol sydd wedi llywio'r broses gynhyrchu a'r canlyniadau ar gyfer y cynllun creu lleoedd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Creu Lleoedd yng Nghymru

Mae'r polisiâu a restrir isod yn nodi egwyddorion, enghreifftiau a chanlyniadau creu lleoedd allweddol a ddefnyddiwyd i strwythuro'r cynllun creu lleoedd ei hun, cyflwyno pwyntiau siarad yn ystod y broses ymgynghori ac arwain y gwaith o flaenoriaethu ymyriadau gwahanol.

Polisi Cynllunio Cymru (PCC) - Rhifyn 12, 2024

Mae'r polisi hwn yn nodi polisiâu cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy ac yn gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r polisi yn pwysleisio'r angen i wneud yn fawr o les a chreu lleoedd cynaliadwy trwy greu lleoedd ac yn nodi pedair thema strategol sy'n cyfrannu at greu lleoedd drwy'r system gynllunio:

- Dewisiadau Strategol a Gofodol
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus
- Lleoedd Unigryw a Naturiol
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol

Canllaw Creu Lleoedd, 2020

Mae'r Canllaw Creu Lleoedd 2020 yn nodi rhagor o wybodaeth am nodau creu lleoedd a sut y gellir ei gyflawni trwy ddatblygiadau newydd ac adfywio. Mae'n nodi rhinweddau allweddol creu lleoedd da a'r hyn i'w osgoi, yn ogystal â darparu astudiaethau achos i fanylu ar arferion da a chanlyniadau llwyddiannus.

Mae'r ddogfen hefyd yn nodi pwysigrwydd cynnwys y gymuned i ddeall lleoedd yn well.

Ffynonellau Eraill o Arweiniad

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd hefyd yn defnyddio amrywiaeth o astudiaethau a datganiadau strategol eraill gan gynnwys:

- Adfywio Canol Trefi yng Nghymru, Archwilio Cymru (2021)
- Gweledigaeth ar gyfer trefi Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach (2022)
- Small towns, big issues: Aligning business models, organisation and imagination, Welsh Government / Foundational Economic Research (2021)
- Ardal Gadwraeth y Bont-faen gyda Llanfleiddan:
- Cynllun Gwerthuso a Rheoli (2010)

Cynaliadwyedd

Ochr yn ochr â Chreu Lleoedd, mae adfywio cynaliadwy a chreu datblygu cynaliadwy yn sbardun allweddol ar gyfer newid yn y Bont-faen. Mae'r polisiâu canlynol yn berthnasol i Gynllun Creu Lleoedd y Bont-faen:

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yw diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Mae'r Ddeddf yn rhoi diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol - y saith nod lles - ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig weithio, a chydweithio, i wella lles Cymru.

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Drwy BGC a Chynllun Lles y Fro, mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i wella lles cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol Bro Morgannwg.

Prosiect Sero

Prosiect Sero yw ymateb Cyngor Bro Morgannwg i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae Prosiect Sero yn dwyn ynghyd yr ystod eang o waith a chyfleoedd sydd ar gael i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, i leihau allyriadau carbon y Cyngor i sero net erbyn 2030 ac i annog eraill i wneud newidiadau cadarnhaol.

Cynllun Newid Hinsawdd Cyngor Bro Morgannwg 2021-30

Mae cynllun newid hinsawdd y Cyngor, sydd wedi'i ddatblygu trwy Brosiect Sero, yn nodi 18 her hanfodol ac 80 o gamau gweithredu sylfaenol a fydd yn sbarduno newid cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys heriau yn ymwneud ag ynni, gwastraff, dŵr, defnydd tir a thrafnidiaeth ymysg eraill.



Y 7 nod lles a ddiffinnir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cydnabyddiaeth: Llywodraeth Cymru

Cyd-destun y Polisi Cynllunio

Mae nifer o gynlluniau a strategaethau presennol sydd wedi llywio'r broses gynhyrchu a'r canlyniadau ar gyfer y cynllun Creu Lleoedd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod.

Polisi Cenedlaethol Cymru

Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040, 2021

Mae'r fframwaith hwn, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2021, yn cynllunio ar gyfer y newid a'r datblygiad y bydd eu hangen ar Gymru dros y ddau ddegawd nesaf ac yn dylanwadu ar feysydd sylweddol o weithgarwch y Cyngor. Mae'n nodi 11 uchelgais troswaol yn seiliedig ar yr egwyddorion cynllunio cenedlaethol a'r canlyniadau cenedlaethol creu lleoedd cynaliadwy a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru..

Mae'r polisiau canlynol yn berthnasol i'r Bont-faen:

Polisi 2 – Llunio Twf ac Adfywio Trefol - Creu Lleoedd Strategol

Sy'n nodi sut y dylai tyfu ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd.

Polisi 3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol - Arweinyddiaeth Sector Cyhoeddus

Sy'n nodi rôl y sector cyhoeddus wrth gefnogi a galluogi adfywio trwy fwrw ymlaen â buddsoddiadau a chadw at egwyddorion creu lleoedd.

Polisi 6 – Canol Trefi yn Gyntaf

Sy'n nodi'r angen i ddarparu cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaeth cyhoeddus newydd sylweddol yng nghanol trefi a dinasoedd yn gyntaf.

Polisi 9 – Rhwydweithiau Ecolegol Gwydn a Seilwaith Gwyrdd

Sy'n datgan pwysigrwydd sicrhau gwella bioamrywiaeth, gwydnwch ecosystemau a darparu seilwaith gwyrdd.

Polisi 10 – Cysylltedd Rhyngwladol

Sy'n nodi Maes Awyr Caerdydd fel Porth Strategol ac yn nodi'r angen i ardaloedd lleol gefnogi rolau cysylltedd rhyngwladol trwy sicrhau nad yw eu gweithrediad yn cael ei gyfyngu na'i beryglu.

Polisi 11 – Cysylltedd Cenedlaethol

Sy'n annog teithiau pellter hirach i gael eu gwneud gan drafnidiaeth gyhoeddus trwy welliannau i'r rheilffyrdd, bysiau, rhwydwaith ffyrdd strategol a rhwydwaith beicio cenedlaethol.

Polisi 12 – Cysylltedd Rhanbarthol

Sy'n nodi cymorth a buddsoddiad mewn cysylltedd rhanbarthol trwy deithio llesol newydd/gwell, rhwydweithiau bysiau a metro a phontio i gerbydau allyriadau isel iawn, mewn ardaloedd trefol.

Polisi 36 – Metro'r De-ddwyrain

Sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gefnogi Metro'r De-ddwyrain a rhwydweithiau teithio llesol i arosfannau allweddol. Er na fydd y llinellau arfaethedig yn mynd yn uniongyrchol trwy'r Bont-faen, bydd yn mynd trwy drefi cyfagos ym Mhont-y-clun a Phen-y-bont ar Ogwr.

Polisi Rhanbarthol

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae Bro Morgannwg yn un o'r deg awdurdod sy'n rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Dyma'r ddinas-ranbarth fwyaf yng Nghymru ac mae'n cyfrif am tua 50% o gyfanswm allbwn economaidd economi Cymru, 49% o gyflogaeth ac mae ganddi dros 38,000 o fusnesau gweithredol

Mae'r Fargen Ddinesig yn sicrhau £1.2 biliwn o fuddsoddiad ac yn disgwyl creu 25,000 o swyddi newydd a throsoli £4 biliwn o fuddsoddiad yn y sector preifat.

Polisi Lleol

Bro 2030 Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair

Mae Cynllun Corfforaethol CBM, Bro 2030 - Cymunedau Cryf gyda Dyfodol Disglair, yn amlinellu rhaglen uchelgeisiol o waith y Cyngor i gyflawni ei weledigaeth trwy:

- Creu lle gwyh i fyw, gweithio a ymweld
- Parchu a dathlu'r amgylchedd
- Rhoi cychwyn da i bawb yn eu bywyd
- Cefnogi a diogelu'r rheiny sydd eu hangen arnom
- Bod y Cyngor gorau y gallwn fod

Cyd-destun y Polisi Cynllunio

Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol Newydd a fydd yn helpu i lunio'r Fro dros y 15 mlynedd nesaf.

Mae'r polisi cyfredol, a ysgrifennwyd yn 2011, yn dosbarthu'r Bont-faen fel 'Anheddiad Canolfan Wasanaeth' ac yn nodi ei fod yn anheddiad cynaliadwy yr ystyrir ei fod â'r gallu i ddarparu ar gyfer datblygiad ychwanegol yn ystod cyfnod y cynllun.

Mae'r cynllun yn tynnu sylw at yr amcanion ardal canlynol ar gyfer y Bont-faen (t35):

- Darparu ar gyfer ystod a dewis o dai i ddiwallu anghenion trigolion presennol a thrigolion cymunedau gwledig cyfagos.
- Cadw a gwella'r amgylchedd adeiledig hanesyddol o ystyried ei gyfraniad sylweddol at gymeriad a bywiogrwydd craidd masnachol y dref a'i rôl fel cyrchfan twristiaeth a hamdden.
- Diogelu a gwella mannau agored pwysig o fewn, ac yn gyfagos i, Ardaloedd Cadwraeth y Bont-faen a Llanfleiddan. Atgyfnerthu bywiogrwydd, hyfywedd a dengarwch canol y dref drwy gynnal ystod amrywiol o ddefnyddiau manwerthu, masnachol a chymunedol, ac annog economi fywiog gyda'r nos y dref.
- Gwella cyfnewidfa fysus bresennol y dref a ffafrio cynigion sy'n darparu gwell cyfleusterau cerdded a beicio i'r Bont-faen, ac oddi mewn iddi, i liniaru tagfeydd traffig, yn enwedig trwy draffig ar hyd y Stryd Fawr.
- Hyrwyddo cynigion datblygu sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer seilwaith ychwanegol neu well, gan gynnwys cyfleusterau parcio arhosiad byr yng nghanol y dref.

Polisiâu allweddol eraill sy'n berthnasol i'r Bont-faen

Mae'r cynllun creu lleoedd yn cynnwys:

Polisi SP7 - Trafnidiaeth

A nododd lwybr beicio newydd ar yr A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen, a mesurau blaenoriaeth bysus ar hyd yr A48 Croes Cwrlwys i Ben-y-bont ar Ogwr drwy'r Bont-faen.

Polisi SP11 - Twristiaeth a Hamdden

Sy'n annog cynigion sy'n hyrwyddo Bro Morgannwg fel cyrchfan twristiaeth a hamdden.

Polisi MG2 - Dyraniadau Tai

A nododd fod y Bont-faen yn gallu darparu ar gyfer tua 646 o gartrefi newydd i ateb y galw am dai.

Ardal Gadwraeth y Bont-faen gyda Llanfleiddan: Cynllun Gwerthuso a Rheoli, 2010

Mae'r gwerthusiad yn cofnodi ac yn dadansoddi'r nodweddion amrywiol sy'n rhoi diddordeb pensaernïol a hanesyddol arbennig i'r Ardal Gadwraeth. Mae hefyd yn nodi cynllun rheoli sy'n nodi cynigion a pholisiâu a all wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Mae'n ddogfen gynhwysfawr, sy'n berthnasol i'r Cynllun Creu Lleoedd, ac mae'r crynodeb canlynol (t8) yn nodi nodweddion o ddiddordeb arbennig yn y Bont-faen:

- Tref hanesyddol fach o deilyngdod archaeolegol a hanesyddol eithriadol. Mae llawer o safleoedd yn arddangos 'haenu' hanesyddol o sawl cyfnod;
- Mae craidd hanesyddol y Bont-faen yn adlewyrchu cynllun y dref gaerog a godwyd yn y 13eg ganrif gydag olion o'r waliau yn parhau ac yn bodoli ym Mhorth y De;
- Aliniad cryf o'r dwyrain i'r gorllewin o'r cynllun o Eastgate - y Stryd Fawr - Westgate gyda ffryntiadau hanesyddol amgaeedig;

- Pwynt pontio ar draws Afon Ddawan a lleoliad yr afon;
- Terasau pwysig o adeiladau hanesyddol ar hyd y prif ffryntiad hanesyddol o gymeriad pensaernïol amrywiol, gyda llawer o adeiladau rhestredig wedi'u nodi;
- Adeiladau rhestredig allweddol gan gynnwys Neuadd y Dref, Eglwys a Mynwent y Groes Sanctaidd, Porth y De, Ysgol Ramadeg y Bont-faen gynt a'r Tŷ Mawr;
- Dilyniannau pwysig o fannau agored i'r de o'r prif aliniad ffordd dwyrain-gorllewin gan gynnwys Gerddi'r Hen Neuadd, yr Ardd Berlysiau, Mynwent Eglwys y Groes Sanctaidd, Parc Twt ac ardal ar hyd Afon Ddawan;
- Cyrtiau hanesyddol caeëdig i'r gogledd ac i'r de o'r prif ffryntiad hanesyddol ar y Stryd Fawr, fel Llys Verity;
- Manylion pwysig ffryntiadau hanesyddol o'r 18fed ganrif sy'n adlewyrchu ffyniant y dref yn y cyfnod fel tref y goetsh fawr a chanolfan ranbarthol;
- Manylion pwysig o'r 16eg a'r 17eg ganrif, yn enwedig y tu mewn i adeiladau.



Creu Lleoedd Cymru
Placemaking Wales

Llofnodydd y Starter

Charter Signatory



Trawsnewid Trefi
Transforming Towns



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

